Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Sioc ddiwylliannol

## Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd

Tachwedd 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Sioc ddiwylliannol

## Diwylliant a’r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd

Tachwedd 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **7**

**Argymhellion** ..... **9**

**Cyflwyniad** ..... **11**

Cefndir ..... 11

Cylch gorchwyl ..... 12

Casglu ein tystiolaeth ..... 12

**Rhan Un. Tystiolaeth o effaith** ..... **14**

1. Trefniadau masnachu ..... 14

1.1. Symud pobl ..... 14

1.2. Symud nwyddau ..... 16

1.3 Effaith ..... 19

1.4 Atebion arfaethedig ..... 24

Ein barn ni ..... 27

2. Canllawiau a chymorth ..... 28

Ein barn ni ..... 30

3. Cyllid a rhwydweithiau ..... 31

Ein barn ni ..... 36

4. Cyfryngau clyweledol ..... 37

Ein barn ni ..... 38

5. Rôl y Pwyllgor ..... 38

Ein barn ni ..... 40

**Rhan Dau: Cymru o ran y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE** ..... **42**

6. Fframwaith cyfansoddiadol ..... 42

6.1 Y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ..... 42

Ein barn ni ..... 45

6.2 Y berthynas rhwng pedair llywodraeth y DU ... 46
Ein barn ni ... 49
6.3 Llywodraeth y DU ... 50
6.4 Llywodraeth yr Alban ... 50
7. Llywodraeth Cymru ... 51
7.1 Grwpiau cynghori ... 53
7.2 Data a thystiolaeth ... 54
7.3 Cynnwys rhanddeiliaid ... 55
Ein barn ni ... 56
8. Y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ... 58
Ein barn ni ... 60
**Atodiad 1: Tystiolaeth feintiol ... 61**
1. Tystiolaeth iafar ... 61
1.1 Equity ... 61
1.2 NoFit State ... 61
1.3 Opera Cenedlaethol Cymru ... 61
1.4 Teledwyr Annibynnol Cymru ... 62
1.5 Media Cymru ... 62
1.6 Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Annibynnol ... 62
2. Tystiolaeth ysgrifenedig ... 62
2.1 No Fit State ... 62
2.2 Opera Cenedlaethol Cymru ... 63
2.3 Theatr Byd Bach ... 64
2.4 Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithredu Rhanbarthol ... 64
2.5 Cyngor Celfyddydau Cymru ... 64
2.6 British Council ... 64
2.7 UK Music ... 65
2.8 Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain ... 65

2.9 Teledwyr Annibynnol Cymru ... 66

2.10 Equity ... 66

3. Canfyddiadau'r rhaglen ymgysylltu ... 66

**Atodiad 2: Casgliadau ac argymhellion tŷ'r arglwyddi ... 68**

**Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ... 70**

**Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig: ... 72**

Gwybodaeth Ychwanegol ... 72

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r ymchwiliad hwn yn mynd at graidd ein hanes Ewropeaidd a rennir: hanes lle mae artistiaid wedi croesi ffiniau, cyfnewid syniadau ac ysbrydoliaeth, ac wedi plethu tapestri diwylliannol ar y cyd. Mae edafedd y tapestri hwnnw wedi breuo, heb amheuaeth, ac mae ein hymchwiliad yn rhoi disgrifiad sobreiddiol o sut y mae Brexit wedi effeithio ar ein sector diwylliannol. Mae cost ddiwylliannol cysylltiadau sydd wedi gwanhau wedi bod yn sylweddol, a'r adroddiad hwn yw ein hymgais nid yn unig i amlygu'r hyn a gollwyd, ond hefyd i wthio am newidiadau – a newidiadau cyflym.

Fel sy'n digwydd mor aml gyda Brexit, mae'n rhaid inni edrych y tu hwnt i'r data i weld yr effaith ar fywydau pobl go iawn, oherwydd nid yn y graffiau y mae'r hyn sy'n cael ei golli i'w weld, ond yn y *bylchau*: - y bylchau mewn cyfleoedd i artistiaid newydd, a'r cysylltiadau toredig yn y gefnogaeth sy'n gwneud teithio bron yn ariannol anymarferol i ormod o berfformwyr. Mae'r rhwystrau yn sgil Brexit wedi arafu symudiad rhydd creadigrwydd, syniadau, a photensial gyda llawer o artistiaid yn dewis peidio â mynd ar daith.

Mae ein sector diwylliannol yn ffynnu ar yr hyn sy'n anfesuradwy - gan mai angerdd, creadigrwydd a thalent yw ei einioes. Mae Cymru yn genedl gyfoethog o ran yr elfennau hyn, ond pa bris yr ydym yn disgwyl i'n hartistiaid ei dalu am ddilyn eu hangerdd? Rhaid i'n cymdeithas ddod o hyd i ffyrdd gwell o adlewyrchu gwerth y celfyddydau i'n heconomi a'n ffordd o fyw. Rhaid caniatáu i'n hartistiaid adrodd stori Cymru i'r byd.

Hyd yma, mae cymhlethdodau'r sefyllfa wedi golygu bod atebion cyflym allan o'n cyrraedd - ond nid yw hyn yn golygu y gallwn fforddio rhoi'r ffidil yn y to, ac ni fyddwn yn gwneud hynny. Mae'r angen dybryd i ddatrys y problemau hyn yn parhau i fod yn hollbwysig: rhaid inni wneud mwy.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r artistiaid a'r rhai sy'n gweithio yn y sector diwylliannol sydd wedi rhannu eu straeon gyda ni. Mae eu geiriau wedi helpu i lunio'r straeon y gallwn ni, yn ein tro, eu hadrodd drwy'r adroddiad hwn – ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar am hynny.

Fel pwyllgor, mae'r neges ddi-flewyn-ar-dafod yr ydym wedi'i chlywed yn aros gyda ni. Mae llawer iawn yn y fantol o hyd. Bob wythnos, mae artistiaid yn dewis *peidio* â mynd ar drywydd mentrau newydd, *peidio* â gwneud cysylltiadau sy'n newid bywydau, oherwydd y rhwystrau a osodwyd ar eu llwybr. Er mwyn cefnogi'r

gelfyddyd a'r artistiaid sy'n cyfoethogi ein bywydau, rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i ddod o hyd i atebion – ac rydym yn cymeradwyo'r bobl sy'n gweithio'n ddiflino i wneud hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori ein hymrwymiad i'r sector – i sicrhau dyfodol bywiog i'n hartistiaid, lle y gellir dod o hyd i oleuni unwaith eto i ddangos y ffordd.



**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr 2023 (gweler paragraffau 58 a 59 yr adroddiad hwn), ac i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i annog y DU a'r UE i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu. ........................ Tudalen 28

**Argymhelliad 2.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa ganllawiau a chymorth y mae'n eu darparu i weithwyr creadigol ar weithio ar draws ffiniau ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb gynnwys manylion ynghylch pa wybodaeth sydd ar gael ar ei gwefan, rôl ei swyddfeydd cymorth allforio a thramor, ac unrhyw gyllid a ddarperir i drydydd partïon ar gyfer gwasanaethau cynghori. ........................ Tudalen 30

**Argymhelliad 3.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o effaith Brexit ar y sector diwylliannol yng Nghymru. ........................ Tudalen 37

**Argymhelliad 4.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa gamau y mae wedi'u cymryd i liniaru effaith Brexit ar y sector, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, a pha gamau y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol, mewn ymateb i'r adroddiad hwn ........................ Tudalen 37

**Argymhelliad 5.** Rydym yn annog y DU a'r UE i flaenoriaethu trefniadau newydd ar gyfer gweithwyr creadigol yn yr adolygiad gweithredu arfaethedig o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r bwriad o fwrw ymlaen ag argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar artistiaid teithiol. ........................ Tudalen 46

**Argymhelliad 6.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gwaith creadigol trawsffiniol fel blaenoriaeth mewn strategaeth glir a chydlynol sy'n nodi ei huchelgais ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a Chymru a'r UE. ........................ Tudalen 46

**Argymhelliad 7.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ei barn bresennol ar sut y caiff Cymru ei chynrychioli yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE mewn ymateb i'r adroddiad hwn. ........................ Tudalen 46

**Argymhelliad 8.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r materion hyn mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Dylai gymryd camau ymarferol, megis awgrymu'r canlynol fel eitemau sefydlog ar yr agenda nes bydd y sefyllfa'n gwella:

i. gwella'r trefniadau ar ôl Brexit ar gyfer gweithwyr creadigol, gan gynnwys drwy'r adolygiad arfaethedig o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu; a

ii. cysylltiad y DU ag Erasmus+ ac Ewrop Greadigol.

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o leiaf unwaith y tymor ar drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol ar y materion penodol hyn am weddill y Chweched Senedd. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 9.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau pa ddata a thystiolaeth y mae'n eu defnyddio fel sail i'r penderfyniadau yn y maes hwn, gan gynnwys cynnwys artistiaid teithiol fel blaenoriaeth yn yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 10.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o sut y bydd ei blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn mynd i'r afael â'r holl elfennau y mae angen iddynt gydweithio er mwyn hwyluso gweithio'n greadigol ar draws ffiniau. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 11.** Rydym yn cefnogi galwad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am sefydlu grŵp cynghori newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Dylai hyn gynnwys cyrff sy'n cynrychioli'r sector diwylliannol. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 12.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y materion a gwmpesir gan yr ymchwiliad hwn ers mis Ionawr 2021, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 13.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori canfyddiadau'r Pwyllgor yn ei strategaethau diwylliant a chysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 14.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal deialog barhaus gyda Llywodraeth Iwerddon ar y mater hwn fel rhan o'u cydweithrediad parhaus a'u cydweithrediad yn y dyfodol, ac i gwmpasu, lle bo modd, pa gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu ar y cyd tra byddant yn aros am ateb wedi'i arwain gan y DU a'r UE. ........ Tudalen 60

# Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Roedd aelodaeth y Deyrnas Unedig ("y DU") o'r Undeb Ewropeaidd ("yr UE") yn gwarantu rhyddid i symud i bersonau, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf. Roedd hyn yn caniatáu i berfformwyr teithiol a gweithwyr diwylliannol proffesiynol ("gweithwyr creadigol") weithio ar draws ffiniau fel y byddent yn ei wneud gartref at ei gilydd.

**2.** Yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, a thelerau ei pherthynas â'r UE ar ôl Brexit, newidiodd hyn yn sylweddol o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

**3.** Mae'r rheolau ar gyfer gweithio'n greadigol ar draws ffiniau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit yn gymhleth oherwydd ni allai'r DU a'r UE gytuno ar reolau ar gyfer y senario benodol hon yn ystod y negodiadau ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae gwahanol elfennau y mae angen iddynt gydweithio er mwyn hwyluso gweithio ar draws ffiniau, ac mae rhai ohonynt yn dod o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i amrywiol raddau. Nid yw eraill o fewn y Cytundeb felly mae'r hyn nad yw wedi'i gynnwys ynddo yr un mor bwysig â'r hyn ynddo.

**4.** Mae'r adolygiad arfaethedig o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu cyd-destun perthnasol ac amserol ar gyfer yr ymchwiliad hwn sydd â'r nod o asesu effeithiau perthynas newydd rhwng y DU â'r UE ar y sector diwylliannol yng Nghymru.

**5.** Mae'r materion yn yr ymchwiliad hwn yn cwmpasu cyfrifoldebau lluosog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac adrannau sy'n gyfrifol yn bennaf am y berthynas rhwng y DU a'r UE, masnach, diwylliant a mewnfudo. Mae'r rhain yn cwmpasu cymhwysedd a gadwyd yn ôl a chymhwysedd datganoledig. O'r herwydd, rydym wedi dychwelyd at ein barn hirsefydlog ynghylch sut y caiff Cymru ei chynrychioli yn y berthynas rhwng y DU a'r UE.

**6.** Mae dwy ran i'r adroddiad hwn. Yn Rhan Un, am y tro cyntaf, rydym yn cyflwyno'r corff cynhwysfawr cyntaf o dystiolaeth o effeithiau Brexit ar y sector diwylliannol yng Nghymru. Rydym hefyd yn amlinellu'r dystiolaeth a gawsom ar rôl y Pwyllgor o ran helpu'r sector i oresgyn yr heriau niferus y mae'n eu hwynebu ar ôl Brexit. Pwysodd y tystion arnom i weithredu, ac mewn ymateb i hynny, rydym yn gwneud nifer o ymrwymiadau.

**7.** Yn Rhan Dau, rydym yn nodi'r dirwedd gyfansoddiadol a'r ysgogiadau sydd ar gael i ni ac i Lywodraeth Cymru i ddylanwadu a sicrhau gwelliannau.

## Cylch gorchwyl

**8.** Cyhoeddwyd cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn ar 24 Gorffennaf 2023. Gofynnwyd am dystiolaeth am:

- effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio ar draws ffiniau (gan gynnwys teithio a gweithio yng Nghymru);
- effaith y trefniadau masnachu newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau diwylliannol;
- argaeledd canllawiau a chymorth ar gyfer y sector sy'n ymwneud â'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE;
- unrhyw newidiadau i'r berthynas rhwng y DU a'r UE a allai wella trefniadau gweithio ar draws ffiniau ar gyfer y sector diwylliant.

## Casglu ein tystiolaeth

**9.** Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 24 Gorffennaf 2023 a 27 Hydref 2023. Daeth 17 o ymatebion ysgrifenedig i law yn cynrychioli ystod o leisiau o bob rhan o'r sector diwylliannol. Fe wnaethom hefyd gynnal wyth sesiwn tystiolaeth lafar rhwng 8 Chwefror 2024, a 15 Mai 2024. Rhestrir y cyfranwyr yn Atodiadau 3 a 4 yn yr adroddiad hwn.

**10.** Cawsom dystiolaeth gan bedwar o weinidogion y DU, chwe gweinidog o Gymru (gan gynnwys dau gyn Brif Weinidog) ac adran o Lywodraeth Iwerddon. Cawsom dystiolaeth hefyd gan aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, a Senedd Ewrop.

**11.** Yn ogystal â hynny, fe wnaethom gynnal digwyddiad ymgysylltu yng ngŵyl Lleisiau Eraill Cymru ac Iwerddon yn Aberteifi ar 27 Hydref 2023, lle y buom yn siarad â pherfformwyr teithiol a gweithwyr diwylliannol proffesiynol ("gweithwyr creadigol") am eu profiadau o weithio ar draws ffiniau cyn ac ar ôl Brexit.

**12.** Hefyd, rhwng 11 Rhagfyr 2023, a 26 Chwefror 2024, hwylusodd Tîm Ymgysylltu Comisiwn y Senedd ddeg cyfweliad ac un grŵp ffocws er mwyn i'r Pwyllgor glywed barn a phrofiadau gweithwyr creadigol.

**13.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn. Mae eich cyfraniadau wedi bod yn ddadlennol, yn werthfawr ac yn wirioneddol sobreiddiol.

**14.** Hoffem hefyd ddiolch yn arbennig i'n partneriaid yn Iwerddon am ymateb i'n galwad am dystiolaeth. Yn ein hadroddiad ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon,[1] fe wnaethom ymrwymo i chwarae ein rhan i wella'r berthynas ryngwladol allweddol hon ac mae ein cymheiriaid wedi rhannu eu profiad a'u persbectif. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Iwerddon am barhau i weithio'n agos gyda ni.

**15.** Ym mis Rhagfyr 2018, archwiliodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd effeithiau posibl Brexit ar sector y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol gan ddarogan y byddai rhaglenni cyllid yr UE yn cael eu colli ac y byddai cyfyngiadau newydd ar artistiaid teithiol.[2] Yn ystod ein hymgynghoriad ar Flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd[3] (a gynhaliwyd yn ystod haf 2021), pwysodd yr ymatebwyr ar y Pwyllgor i werthuso effeithiau Brexit ar y sector diwylliannol. Nawr bod digon o amser wedi mynd heibio ers y pandemig i artistiaid ailddechrau teithio, credwn ein bod mewn sefyllfa well i asesu'r effeithiau hyn.

**16.** Mae'r corff cyfoethog o dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol. Er bod y dystiolaeth ansoddol i'w gweld drwy'r adroddiad cyfan, cyflwynir tystiolaeth o'r effaith economaidd yn Atodiad 1. Rydym yn cymeradwyo didwylledd a pharodrwydd y tystion a rannodd y wybodaeth hon.

[1] Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, Hydref 2023
[2] Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Effaith Brexit ar y sector celfyddydau, diwydiannau creadigol , treftadaeth a'r iaith Gymraeg, Rhagfyr 2018
[3] Ymgynghoriad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

# Rhan Un. Tystiolaeth o effaith

**17.** Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn amlinellu'r meysydd pryder allweddol a nodwyd gan y tystion gan gynnwys trefniadau masnachu, y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael, a cholli cyllid a rhwydweithiau'r UE. Rydym yn cyflwyno tystiolaeth a gafwyd ar yr effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'i chael ar weithio ar draws ffiniau a'r effaith yn ymwneud â rôl y Pwyllgor o ran cefnogi'r sector. Rydym yn gwneud nifer o ymrwymiadau mewn ymateb i'r dystiolaeth honno.

## 1. Trefniadau masnachu

**18.** Am y tro cyntaf, rhaid i'r sector ymdopi â rheolau symudedd a masnachu cymhleth ar gyfer symud pobl a'u nwyddau. Dywedodd rhai tystion eu bod yn teimlo fel pe baent wedi profi Brexit heb gytundeb. Dywedodd yr Athro Catherine Barnard wrthym fod y sector wedi cael cam mawr yn sgil telerau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE.[4]

### 1.1. Symud pobl

**19.** Nid yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ymdrin yn benodol â rhyddid gweithwyr creadigol i symud. Yn ogystal, mae gan Aelod-wladwriaethau'r UE rywfaint o ymreolaeth i benderfynu sut i ymdrin â symud pobl mewn meysydd nad ydynt yn cael eu crybwyll o gwbl yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. O ganlyniad, rhaid i weithwyr creadigol y DU sy'n teithio yn yr UE ymdopi â 27 set o reolau sy'n berthnasol i ryddid pobl i symud.

**20.** Soniodd y tystion am gymhlethdod y trefniadau newydd hyn. Disgrifiodd y Farwnes Bull y rheolau ar gyfer symud pobl fel clytwaith o drefniadau fisa a thrwyddedau gwaith mewn 27 o wledydd yr UE sy'n effeithio ar allu pobl i ymdopi.[5] Roedd tystion eraill yn cefnogi ei barn a dywedodd llawer fod y lefel newydd o waith gweinyddol wedi cynyddu costau ac amser.[6] Dywedodd Theatr Byd Bach wrthym fod y swm anghymesur o waith gweinyddol a'r costau ychwanegol wedi lleihau ei huchelgais i weithio yn Ewrop.[7]

[4] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraffau 8, 78-80
[5] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 8
[6] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 14, British Council
[7] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 105

**21.** I'r gwrthwyneb, dim ond un set o reolau y mae angen i artistiaid o'r UE sy'n teithio yn y DU eu dilyn, sy'n gymharol hael i weithwyr yr UE. Eglurodd yr Athro Catherine Barnard fod hyn yn golygu, yn baradocsaidd, fod gan yr UE lai o gymhelliant i gynnig bargen hael i'r DU, oherwydd bod gan ei gerddorion fynediad i farchnad y DU eisoes.[8]

**22.** Cyfeiriodd llawer o'r tystion at reol 90/180 diwrnod Schengen[9] gan egluro sut yr oedd hynny wedi arwain at golli gwaith[10] ac incwm, contractau llai hyfyw, a theithiau dwyffordd ychwanegol i'r DU rhwng perfformiadau, naill ai i adnewyddu fisas neu i aros o fewn y terfyn 90 diwrnod.[11] Dywedodd NoFit State:

> *"I just wanted to add that, within our contracts now, with our performing company, we have to include a clause that they're not allowed to go on holiday into the EU in the month immediately preceding a contract because, if they did, that would break into their 90 days and they would not be able to work in the EU for our contract. I'd never imagined in my life that I would have a contract with an artist making such a demand on them, that they should affect their personal lives outside of working for us to that extent."*[12]

**23.** Dywedodd rheolwr teithiau yn yr ŵyl Lleisiau Eraill fod rheol 90/180 diwrnod Schengen yn ei gwneud hi'n anodd cael staff newydd yn gyflym neu'n hawdd pan fyddant yn sâl, yn enwedig staff o Gymru. Ychwanegwyd bod cerddorion sesiwn ar gyfer band roc adnabyddus o Gymru wedi cael pasbortau Gwyddelig er mwyn gallu symud yn rhydd yn yr UE.[13] Ategwyd y farn hon gan Undeb y Cerddorion ac Opera Cenedlaethol Cymru ("WNO").[14]

---

[8] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 87
[9] Hepgoriad fisa ar gyfer ymweliadau byr o fewn ardal Schengen o ddim mwy na 90 diwrnod ym mhob 180.
[10] Y Pwyllgor Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 103
[11] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 13, Equity, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 15 Mai 2024
[12] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 168
[13] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 11
[14] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 27, 108

## 1.2. Symud nwyddau

**24.** Disgrifiodd nifer o'r tystion fiwrocratiaeth gynyddol, gan gynnwys y beichiau gweinyddol ac ariannol sy'n wynebu gweithwyr creadigol wrth symud nwyddau ar draws ffiniau. Disgrifiwyd y problemau hyn amlaf yng nghyd-destun y dogfennau tollau ar gyfer nwyddau (fel offerynnau a chyfarpar creadigol), cyfyngiadau cludo, datganiadau allforio a thollau mewnforio a threthi'n ymwneud â nwyddau. Soniodd y tystion am effaith mwy o fiwrocratiaeth ar eu creadigrwydd. Dywedodd un o'r cyfranogwyr yn y grŵp ffocws:

> *"Yn amlwg, mae yna eithriadau, ond ar y cyfan, mae [y gwaith papur ychwanegol] wir yn effeithio ar feddylfryd artist, ac mae hynny'n effeithio arnoch chi o safbwynt creadigol hefyd, nid dim ond yn ymarferol."*[15]

**25.** Galwodd y tystion yn bennaf am reolau llai cyfyngol a/neu symlach, gan gynnwys esemptiadau neu hepgoriadau o ofynion tollau a chludo nwyddau.[16] Dywedodd llawer iddynt gael profiadau negyddol o reolaethau ffiniau gan alw am well hyfforddiant i staff ffiniau.[17]

### Trwyddedau ATA

**26.** Er mwyn mynd â nwyddau i'r UE dros dro (e.e. offerynnau cerdd a chyfarpar) gall fod angen pasbort nwyddau, a elwir yn drwydded ATA. Mae trwyddedau ATA fel arfer yn costio rhwng £200-500 ynghyd â blaendal diogelwch yn seiliedig ar werth y cyfarpar.

**27.** Yn ôl y tystion, roedd y gofyniad am drwyddedau ATA wedi cael effaith fawr ar gludo cyfarpar ar gyfer perfformiadau a theithiau tramor.[18] Maent yn eu disgrifio fel "brawychus", "hynod ddryslyd", "hunllef gwaith papur mwyaf fy mywyd", a "rhwystredigaeth fawr". Roedd rhai wedi talu arbenigwyr i ymdrin â'r broses ar eu rhan.[19]

---

[15] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, Mawrth 2024, paragraff 21
[16] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 03, Opera Cenedlaethol Cymru
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
[17] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
Lleisiau Eraill, nodyn ar y gwaith ymgysylltu, paragraffau 12-15
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 70
Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, Mawrth 2024, paragraff 33
[18] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
[19] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraffau 40, 41

**28.** Dywedodd sawl tyst wrth y Pwyllgor fod gwiriadau ffin yn anghyson, gan gynnwys y rhai ar y daith rhwng Caergybi a Dulyn, gan ei gwneud yn anodd i weithwyr creadigol wybod pa reolau y mae angen iddynt eu dilyn.[20] Roedd Theatr Byd Bach a NoFit State yn cytuno nad oedd swyddogion ar ffiniau'r DU yn aml yn ymwybodol o'r gofynion:

> *"... the example [...] of the wrong stamp in the wrong place on the form, that is happening to everybody all of the time and, as a result, equipment is being held at borders, trucks are being held at borders, the officials on the ground don't know what the rules are and they are making mistakes".*[21]

**29.** Dywedodd un tyst yng ngŵyl Lleisiau Eraill wrth yr Aelodau, hyd yn oed pan fydd pobl yn gwneud popeth yn iawn, efallai y bydd porthladdoedd yn newid y rheolau.[22] Dywedodd un arall bod arno ofn cael ei garcharu oherwydd camgymeriad ar ei ffurflen tollau.[23]

**30.** Dywedodd UK Music hefyd fod y trefniadau prosesu yng nghyfleuster tollau oddi ar y safle yng Nghaergybi yn ei gwneud yn ofynnol i artistiaid orfod archebu lle 24 awr ymlaen llaw, gan ychwanegu amser sylweddol at y daith rhwng Cymru ac Iwerddon.[24]

**31.** Argymhellodd y tystion y dylid darparu gwell addysg a hyfforddiant i swyddogion tollau ar y ffiniau gan ddweud y dylid dileu'r gofyniad am drwydded ATA, yn arbennig rhwng Cymru ac Iwerddon.[25]

---

[20] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 127
Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 13
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 45, 55
[21] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 127
Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 13
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 161, 170
[22] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 14
[23] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 15
[24] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 127
[25] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 17

### Nwyddau hyrwyddo

**32.** Er mwyn mynd â nwyddau hyrwyddo ar daith o'r DU i'r UE i'w gwerthu mewn perfformiadau, mae rheolau a gofynion gwahanol yn berthnasol yn dibynnu ar werth y nwyddau, ei bwysau a ble maent yn cael eu gwerthu.

**33.** Disgrifiodd y tystion nwyddau hyrwyddo fel maes arbennig o gymhleth a oedd yn cael effaith negyddol ar ffrwd incwm hynod bwysig.[26] Dywedodd unawdydd yn yr ŵyl Lleisiau Eraill fod refeniw o nwyddau hyrwyddo yn rhan fawr o'i incwm ac mai Brexit sydd wedi effeithio fwyaf ar hyn.[27] Roedd nifer o dystion yn cefnogi'r farn bod rheolau nwyddau hyrwyddo yn cynyddu'r baich ar artistiaid llai yn anghymesur. Dywedodd UK Music, o ran y grŵp hwn, y gall gwerthu nwyddau hyrwyddo olygu'r gwahaniaeth rhwng sicrhau bod taith yn hyfyw neu beidio.[28]

**34.** Esboniodd rhai actorion eu bod wedi dechrau anfon nwyddau i bob lleoliad ymlaen llaw, gan ychwanegu milltiroedd cludo nwyddau a milltiroedd awyr at eu teithiau. Roedd un tyst yn yr ŵyl Lleisiau Eraill wedi sefydlu canolfan ddosbarthu yn yr Almaen i geisio gwneud hyn yn haws, ond roedd hyn hefyd wedi bod yn broblemus.[29]

### Masnach arforol

**35.** Mae rheolau masnach arforol y Cytundeb Masnachu a Chydweithredu yn caniatáu i deithiau o'r DU wneud tri symudiad (un symudiad cychwynnol o'r DU ac yna ddau symudiad pellach) o fewn saith diwrnod cyn gorfod dychwelyd i'r DU.

**36.** Dywedodd llawer o'r tystion fod y rheolau masnach arforol yn effeithio ar eu gallu i deithio yn yr UE.[30] Dywedodd UK Music fod dychwelyd i'r DU bob tri stop yn cymryd llawer o amser a bod y gost ariannol yn enfawr.[31] Dywedodd Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain wrthym fod y rheolau masnach arforol yn atal cerddorfeydd rhag defnyddio eu tryciau eu hunain a addaswyd yn benodol ar gyfer teithiau yn yr UE sydd â sawl stop.[32]

[26] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 18
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 72
[27] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraffau 18, 20
[28] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
[29] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 19
[30] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 03, Opera Cenedlaethol Cymru
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 8
[31] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
[32] Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 09, Cymdeithas Caerddorfeydd Prydain

**37.** Yn ôl cwmni logisteg yn yr ŵyl Lleisiau Eraill, roedd logisteg trafnidiaeth wedi bod yn rhwystr, hyd yn oed i gwmnïau mwy. Roedd yn credu bod yr effaith ar yrwyr wedi'i danadrodd a phwysleisiodd bwysigrwydd parhad staff er mwyn sicrhau teithiau cydlynus.[33] Dywedodd cyfarwyddwr creadigol theatr yn yr ŵyl Lleisiau Eraill y byddai taith nad yw bellach yn ystyried teithio yn Ewrop o gwbl – bod ei ddyhead wedi diflannu.[34]

### CITES

**38.** Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt sydd mewn Perygl ("CITES") yn berthnasol i symud offerynnau cerdd sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau o rywogaethau mewn perygl, megis ifori a chregyn crwbanod ar draws ffiniau. Mae CITES yn mynnu bod yn rhaid i'r offerynnau hyn gael tystysgrifau a chyrraedd / gadael drwy borthladdoedd dynodedig.

**39.** Mae meysydd awyr Caerdydd a Bryste, a phorthladdoedd Abergwaun, Caergybi a Phenfro yn borthladdoedd CITES dynodedig, ond nid felly'r Eurotunnel. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd cyn-Lywodraeth y DU ei bod wedi cynyddu'r nifer o bwyntiau mynediad CITES o 11 i 36 ers 2021.[35]

**40.** Codwyd CITES fel problem gan nifer o dystion, gan gynnwys arbenigwyr yn asesu offerynnau. Disgrifiodd WNO bod yn rhaid cael asesiadau o'i holl offerynnau gan arbenigwyr allanol i benderfynu a oedd angen tystysgrifau. Dywedodd, "…roedd yr holl broses yn golygu buddsoddiad enfawr o ran gwaith ac amser".[36]

**41.** Disgrifiwyd teithio ychwanegol drwy borthladdoedd dynodedig fel "…rhywbeth sy'n gwahardd rhai artistiaid i bob pwrpas rhag rhai mathau o drafnidiaeth i'r UE," a galwodd y tystion am ddynodi'r Eurotunnel yn borthladd CITES.[37]

## 1.3 Effaith

**42.** Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym o'r heriau niferus sy'n wynebu gweithwyr creadigol yn sgil ymadawiad y DU â'r UE yn rhoi darlun llwm o'r effeithiau cronnol. Cyfeiriodd mwyafrif llethol y tystion at y trefniadau ar ôl Brexit

[33] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 11
[34] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 31
[35] Llywodraeth y DU, tystiolaeth ysgrifenedig
[36] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 03, Opera Cenedlaethol Cymru
[37] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music,
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 17

mewn termau negyddol, gan ddweud eu bod yn cael effaith andwyol ar y sector a'i waith trawsffiniol. Mae Laurence Farreng ASE yn credu bod yr effeithiau hyn yn cael eu tanamcangyfrif, gan gynnwys colli cyfraniad y DU i'r UE.[38]

**43.** Fe wnaethom ofyn i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn a allent ddarparu unrhyw ddata i ddangos effaith Brexit ar y sector. Rhoddir trosolwg manwl o'r data meintiol a gafwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn Atodiad 1.

**44.** Disgrifiodd y tystion dirwedd gymhleth[39] o rwystrau gweinyddol, ariannol, a chanfyddiadol[40] y bu i Theatr Byd Bach eu cyffelybu i Len Haearn diwylliannol.[41] Dywedodd BECTU wrthym fod gan y DU ddiwydiant adloniant o safon fyd-eang, a oedd yn ffynnu, ond sydd bellach yn wynebu anawsterau.[42] Disgrifiodd y tystion sut y mae'r rhwystrau newydd hyn wedi arwain at golli cyfleoedd[43], llai o weithgaredd[44], costau uwch[45] a cholli incwm.[46] Ailadroddwyd llawer o'r effeithiau hyn gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws.[47]

**45.** Roedd nifer o dystion yn credu bod cwmnïau ac artistiaid mwy o faint, sy'n fwy sefydledig, mewn sefyllfa well i ysgwyddo costau newydd mewn sector sy'n cynnwys mentrau llai yn bennaf.[48] Dywedodd British Council Cymru fod

---

[38] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 8
[39] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 14, British Council
[40] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 01, NoFit State Community Circus
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
[41] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 04, Theatr Byd Bach
[42] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 11
[43] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 17
[44] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 13, Equity
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 199, 203, 238
[45] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 04, Theatr Byd Bach
Ymateb i'r ymgynghoriaf CEU 05, Cyngor Celyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 11, Teledwyr Annibynnol Cymru
Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 14, British Council
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod o'r trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 201, 203
[46] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 105, 119
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 01, NoFit State Community Circus
[47] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, Mawrth 2024
[48] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod o'r trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 7, 119
Ymateb i'r ymgynghoriaf CEU 05, Cyngor Celyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

sefydliadau mwy, yn enwedig y rhai sydd ag eitemau lluosog a mawr o gyfarpar fel syrcasau a cherddorfeydd, yn dal i gael eu heffeithio'n sylweddol.[49] Dywedodd Theatr Byd Bach fod yr elfennau cyffredin hyn yn effeithio ar bob artist. Y gwir amdani, meddai, yw bod eu sefyllfaoedd mor ansicr ac anobeithiol, ac nad oes dim ar gael i'w helpu.[50]

**46.** Soniodd llawer o'r tystion am effaith ar genedlaethau[51], gan ddweud bod yr effaith fwyaf ar artistiaid ifanc ac artistiaid newydd.[52] Dywedodd y Farwnes Bull wrthym fod yna ergyd ddiwylliannol, ergyd economaidd, ac ergyd i'r cyfle i bobl ifanc.[53] Eglurodd Undeb y Cerddorion ei bod yn rhaid i artistiaid llawr gwlad sydd newydd ddechrau ar eu gyrfa ddod o hyd i rywun neu ddod o hyd i ffordd o ddelio â'r holl gostau a'r gwaith gweinyddol ond ei bod yn debygol bod gan artistiaid masnachol sefydledig y gefnogaeth honno eisoes.[54] Dywedodd un o'r cyfranogwyr yn y grŵp ffocws:

> *"Roedd yn llawer haws mynd dramor i berfformio. Nawr mae'r cyfan yn llawn biwrocratiaeth… mae'n mynd i dorri calonnau pobl ifanc cyn iddynt ddechrau, o'r ddwy ochr. Mae hynny'n drist."*[55]

**47.** Yn ôl Equity, heb enw da sefydledig, mae'n anos i artistiaid ifanc ddod o hyd i gyflogwyr yn Ewrop a fydd yn ysgwyddo'r costau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflogi gwladolyn o'r DU.[56] Dywedodd WNO wrthym fod perygl na fydd yr artistiaid ifanc hynny'n gallu datblygu a hogi eu sgiliau a fyddai'n eu denu

---

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Chwefror 2024, paragraff 24
[49] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 114
[50] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 39
[51] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 20, 117
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 20
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 145
[52] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 9, 119
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 18, 175, 204
[53] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 9
[54] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 23
[55] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, Mawrth 2024, paragraff 42
[56] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 18

yn ôl i'r DU, ac yn enwedig i Gymru.[57] Yn ôl rheolwr teithiau yn yr ŵyl Lleisiau Eraill, nid yw artistiaid ifanc yn gallu datblygu gyrfa yng Nghymru.[58]

**48.** Disgrifiodd y tystion hefyd agweddau sy'n anoddach eu mesur. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys colli natur ddigymell[59], uchelgais,[60] creadigrwydd[61], a hyder[62] gan gynnwys nerfusrwydd ynghylch gweithio rhwng y DU a'r UE er gwaethaf parodrwydd artistiaid i barhau i wneud hynny.[63] Dywedodd eraill wrthym am eu hymatebion emosiynol.[64] Soniodd y Farwnes Bull am y pethau anfesuradwy, y dalent heb ei gwireddu a pherfformiadau heb eu gweld na ellir eu mesur ac na fyddant yn cael eu hadennill. Dywedodd fod y DU wedi colli cyfran sylweddol o dalent na fyddwn fyth yn gwybod amdani.[65]

**49.** Nododd sawl tyst fod gweithwyr creadigol yn yr UE hefyd yn teimlo effaith Brexit a bod y colledion o ganlyniad i rwystrau newydd yn effeithio ar y ddwy ochr. Dywedodd y Farwnes Bull fod y sefyllfa hefyd yn andwyol i artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn yr UE, nid yn unig o ran y gallu i ddod i'r DU, ond oherwydd y cyfraniad y mae artistiaid o'r DU bob amser wedi'i wneud i fyd celfyddydol yr UE ac i'r diwydiant cerddoriaeth yno.[66] Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

[57] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 175
[58] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 37
[59] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 105
[60] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 105
[61] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 24
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 116
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 152
Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, Mawrth 2024, paragraff 48
[62] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 19, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion, Mawrth 2024, paragraffau 36-42
[63] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
[64] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraffau 92, 56
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 142
[65] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 75
[66] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 9

wrthym fod gweithwyr creadigol yr UE yn poeni am ddod i mewn i'r DU, a "pha mor gymhleth a chostus ydy o."[67]

**50.** Dywedwyd wrthym fod Cymru yn dod yn lle llai deniadol i artistiaid o'r UE weithio ynddo.[68] Dywedodd Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Annibynnol ei bod yn gweld gostyngiad yn nifer yr artistiaid sy'n dod i leoliadau yng Nghymru a ledled y DU.[69] Roedd rhai tystion yn pryderu nad yw Cymru'n cael ei gweld yn Ewrop fel lle mor groesawgar ag o'r blaen.[70] Dywedodd NoFit State na ddylid tanamcangyfrif y niwed a wnaed i enw da yn sgil Brexit a'r argraff y mae wedi'i greu nad oes croeso i bobl o wledydd eraill yng Nghymru.[71]

**51.** Roedd llawer o'r tystion yn cytuno bod y costau sy'n gysylltiedig â fisas a gordal GIG y DU yn ei gwneud yn anos denu a recriwtio'r dalent orau, a chynnig contractau tymor byr.[72] Disgrifiodd WNO hyn hefyd o fewn y cyd-destun o sicrhau chwarae teg a dywedodd fod ganddo brofiad o fethu â chystadlu â'r cyfleoedd a gynigir o fewn yr UE, lle mae cyflogau hefyd yn uwch.[73] Dywedodd sawl tyst wrthym fod rhwystrau gweinyddol a chostau ychwanegol yn atal cyflogwyr yn yr UE rhag edrych i gyfeiriad y DU i gyflogi pobl.[74]

**52.** Disgrifiodd y tystion sut yr oedd y rhwystrau newydd i symudedd wedi arwain at lai o raglenni cyfnewid a phrosiectau cydweithredol artistig, gan danseilio bywiogrwydd ac amrywiaeth ein tirwedd ddiwylliannol.[75] Dywedodd Theatr Byd Bach wrthym:

[67] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 197
[68] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 212
Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 12, Cwmni Dawns Cenedaethol Cymru

[69] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 206
[70] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 77, 210, 212
[71] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 01, NoFit State Community Circus
[72] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 132-135
[73] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 03, Opera Cenedlaethol Cymru
[74] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 03, Opera Cenedlaethol Cymru
[75] Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 12, Cwmni Dawns Cenedaethol Cymru

> *"It has mostly affected our ambition to collaborate with—. Before, we would go and talk to wonderful companies and share ideas, cross pollinate, talk about collaborations and be spontaneous."*[76]

**53.** Yn ôl WNO, gallai creadigrwydd gael ei fygu gan nad yw cymheiriaid Ewropeaidd yn nhai opera'r UE yn ystyried bod y DU yn lle hyfyw i weithio ynddo. Dywedodd Llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Cyfnewidfa Lên Cymru wrthym "…mae ein heffaith ac ôl-droed diwylliannol wedi lleihau, rydym yn llai weladwy fel cenedl ddiwylliannol".[77]

**54.** Fe wnaethom ofyn i bob tyst a oedd unrhyw fanteision a/neu gyfleoedd yn sgil y trefniadau newydd. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn gyfyngedig i orfod dod o hyd i bethau'n fwy lleol yn sector y cyfryngau, a dod o hyd i gyfleoedd i fasnachu y tu allan i'r UE.[78] Dywedodd BECTU wrthym na all ei aelodau ganfod y gwaith y maent wedi'i golli o'r UE o fewn sector creadigol y DU.[79] Yn ôl Undeb y Cerddorion, nid yw'r berthynas newydd gyda'r UE yn ei gwneud yn haws i weithio mewn gwledydd eraill sydd ymhellach i ffwrdd.[80] Nododd rhai tystion yn benodol fod ymrwymiadau targed sero net wedi dylanwadu ar benderfyniadau i beidio â chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill.[81]

## 1.4 Atebion arfaethedig

**55.** Cefnogwyd llawer o atebion posibl gan y tystion, a byddai pob un o'r atebion hynny'n gofyn am drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Mae enghreifftiau yn cynnwys esemptiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau, cytundeb diwylliannol pwrpasol sy'n cwmpasu pob senario[82], cytundeb hawlildio fisa i gysoni rheolau fisa ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE[83],

---

[76] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 105
[77] Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 06, Llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Cyfnewidfa Lên Cymru
[78] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 158, 217
[79] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 39
[80] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 41
[81] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 01, NoFit State Community Circus
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 162
[82] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 02, Media Cymru
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 03, Opera Cenedlaethol Cymru
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music
[83] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 08, UK Music

dirymu rheol 90/180 Schengen ar gyfer y sector[84] a chreu marchnad sengl ar gyfer diwylliant gan roi rhyddid i symud pobl a'u nwyddau. Yn ôl Theatr Byd Bach, byddai cynigion o'r fath yn gyfystyr â photsian ar yr ymylon ac mai dim ond ailymuno â'r UE fyddai'n datrys ac yn gwella'r sefyllfa.[85] Fodd bynnag, dywedodd Equity nad oes angen i'r DU ailymuno â'r UE er mwyn cymryd camau ymarferol i helpu'r sector nawr.[86]

### Y Cynulliad Partneriaeth Seneddol

**56.** Y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yw'r corff rhyng-seneddol a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Wedi'i ffurfio o aelodau Senedd y DU a Senedd Ewrop, mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a dyma'r unig gorff a all ddwyn y Cyngor Partneriaeth i gyfrif.

**57.** Mae'r Cyngor Partneriaeth yn goruchwylio ac yn hwyluso gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r ffordd y mae'n cael ei gymhwyso, ynghyd ag unrhyw gytundebau atodol rhwng y DU a'r UE. Caiff ei gyd-gadeirio gan un cynrychiolydd o Lywodraeth y DU ac un o'r Comisiwn Ewropeaidd ac mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn neu ar gais. Fe'i cefnogir gan 19 o bwyllgorau (11 pwyllgor masnach ac wyth pwyllgor arbenigol anfasnachol) a gweithgorau.[87]

**58.** Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yr argymhelliad a ganlyn ynghylch artistiaid teithiol i'r Cyngor Partneriaeth. Mae'n gwneud y canlynol:

> 12. *"Recognises the intrinsic value of cultural exchange and creative partnerships, which foster mutual understanding between the citizens of our nations, enable networks fostering artistic creation and innovations that create benefits to culture, society and the economy, and maintain our strong shared beliefs in freedom of expression and cultural diversity;*

---

Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 14, British Council
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 15
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 72
[84] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 01, NoFit State Community Circus
[85] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 04, Theatr Byd Bach
Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 47
[86] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 75
[87] Ymchwil y Senedd, Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach Chydweithredu: Fframwaith Sefydliadol

> 13. *Observes that strengthening cultural exchange is a focus of recent developments in both EU and UK foreign policy, as reflected in both the EU Work Plan for Culture 2023–2026, and the Integrated Review Refresh 2023;*
>
> 14. *Acknowledges that as a result of the UK's departure from the EU Single Market and the Customs Union, UK and EU artists seeking to tour within the other party's territory have experienced increased barriers to doing so, including visa or work permits, customs and transport restrictions;*
>
> 15. *Observes that the current situation can be particularly challenging for young and less established artists;*
>
> 16. *Notes that while the majority of Member States offer UK artists some form of short-term touring options without a visa or work permit, the maximum length of stay in a Member State varies between a single performance and up to 90 days in a 180 day period; and that the UK offers a 1-month period for paid performances and a 6-month period for unpaid performances comprising taking part in competitions, auditions and promotional activities as long as they are only claiming expenses or prize money;*
>
> 17. *Recalls that the EU-UK Trade and Cooperation Agreement provides for rules on the temporary import of goods, used by artists to import their equipment."*[88]

**59.** Gwna'r argymhellion a ganlyn:

> 22. *"Urges the Partnership Council to prioritise the mobility of touring artists, with a view to developing a comprehensive approach that would allow artists and their teams to tour freely in the EU and UK - potentially as part of the forthcoming Trade and Cooperation Agreement Review - whilst recognising that this would form part of a broader political discussion encompassing a wide range of other issues;*

[88] www.europarl.europa.eu/cmsdata/279312/Final%20Recommendation%20-%204th%20EU_UK%20PPA.pdf

23. *Calls on the Partnership Council to work towards an agreement on streamlining visa, customs and work arrangements for touring artists and their teams; and*

24. *Calls for a redoubling of the efforts between the UK Government and the EU Member States to tackle artists' concerns referred to above; for EU Schengen Member States to expand their offer for visa and work permit-free visits for touring artists and their teams up to the Schengen limit of 90 days in a period of 180, and to provide clear and comprehensive guidance online for touring artists and staff; and for the UK to reciprocate these efforts to reduce barriers to EU touring artists and to make clear information available online."*

**60.** Ymatebodd[89] cyn gyd-gadeiryddion Cyngor Partneriaeth y DU a'r UE i argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar artistiaid teithiol. Nododd yr ymateb y byddai newidiadau i'r rheolau presennol yn gofyn am ddiwygiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a fyddai'n fater i'r Partïon ei benderfynu. Roedd yn cytuno â'r Cynulliad Partneriaeth bod angen gwybodaeth glir ynghylch y mater hwn.

## Ein barn ni

**61.** Yn ystod ein hymchwiliad, rydym wedi casglu corff cyson a chymhellol o dystiolaeth gan randdeiliaid ledled Cymru, sy'n dangos effaith ddinistriol a phellgyrhaeddol ymadawiad y DU â'r UE ar ein sector diwylliannol. Rydym yn cydnabod y swm sylweddol o waith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn gan gyrff cynrychioliadol a phwyllgorau eraill.[90] Yn anffodus, mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn datgelu nad yw Cymru wedi llwyddo i osgoi effeithiau Brexit ac mae ein gweithwyr creadigol yn wynebu heriau tebyg i'r rhai a welir mewn mannau eraill.

**62.** Rydym yn cymeradwyo ymdrechion y Farwnes Bull a Laurence Farreng ASE i roi sylw i'r materion hyn ar lefel y DU-UE ac ar lefel yr UE. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth drawsbleidiol i argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar artistiaid teithiol. Yn ein barn ni, mae'r argymhelliad yn cynnig dull synhwyrol o

[89] www.parliament.uk/globalassets/mps-lords--offices/offices/nato-expenses-2022-23-first-quarter/reply-from-the-partnership-council-to-the-recommendation-on-youth-mobility-schemes-etc.pdf
[90] The All-Party Parliamentary Group on Music in association with UK Music, Let the Music Move: A New Deal for Touring
Independent Society of Musicians: Paying the Price: The sixth ISM Brexit report, August 2023

fynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol a nodwyd yn ein hymchwiliad. Fel Pwyllgor, rydym yn cytuno'n llwyr â'r argymhelliad ac yn ei gefnogi.

**63.** Nodwn ymateb y Cyngor Partneriaeth i argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac rydym yn pwyso ar y partïon i fwrw ymlaen ag ef.

**64.** Credwn fod natur ehangach yr heriau sy'n wynebu'r sector diwylliannol yng Nghymru yn amlygu'r angen i weithredu ar fyrder ar lefel y DU a'r UE, ar lefel y DU ac ar lefel Cymru. Mae'r canfyddiadau cyffredin yn tanlinellu pwysigrwydd cefnogaeth barhaus a chydweithredol er mwyn canfod atebion sy'n lliniaru'r effeithiau a'r risgiau cynyddol i'r sectorau yn y DU a'r UE.

**65.** Rydym yn cydnabod y dystiolaeth ynghylch cymhlethdod y rheolau a wynebir gan y sector, a'r dull anghyson o'u cymhwyso mewn porthladdoedd, gan gynnwys yng Nghaergybi. Credwn mai dim ond ar lefel y DU a'r UE y gellir mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn ac y byddai'r sefyllfa gyffredinol yn gwella o gael trefniadau symlach a chliriach.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr 2023 (gweler paragraffau 58 a 59 yr adroddiad hwn), ac i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i annog y DU a'r UE i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu.

## 2. Canllawiau a chymorth

**66.** Canfu ein hymchwiliad fod artistiaid yn wynebu anawsterau o ran cael mynediad at wybodaeth gynhwysfawr, ddibynadwy wrth gynllunio ymweliadau â'r UE. Dywedodd y tystion wrthym fod natur dameidiog ac anghyson y wybodaeth sydd ar gael yn golygu bod angen i artistiaid yn aml ymgynghori â ffynonellau lluosog i ddod o hyd i wybodaeth sy'n cymryd llawer o amser ac arian.[91] Roedd y tystion yn cytuno nad oes siop un stop ar gyfer pob senario a rhaid iddynt ddefnyddio ffynonellau lluosog i ddod o hyd i wybodaeth, gan gynnwys y trydydd sector, gwefan Llywodraeth y DU, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, siambrau masnach a chynrychiolwyr gwleidyddol.[92]

**67.** Roedd llawer o'r tystion yn feirniadol o adnoddau presennol y llywodraeth, gan eu disgrifio fel rhai di-drefn, anhygyrch, a dryslyd.[93] Dywedodd NoFit State nad

[91] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 191
[92] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 191
[93] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 190

yw'r manylion gofynnol ar wefan Llywodraeth y DU a bod y wybodaeth yn aml yn hen neu'n anghywir.[94] Dywedodd UK Music wrth y Pwyllgor ei fod wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu hyb gwybodaeth ond ei bod wedi colli diddordeb ar ôl tipyn, a oedd braidd yn anffodus, meddai.[95] Awgrymodd Undeb y Cerddorion fod hwn yn faes ble y gallai fod rôl i Lywodraeth Cymru.[96]

**68.** Adroddodd BECTU fod diffyg canllawiau dybryd ac amlwg i'w aelodau a dywedodd mai'r diwydiant ei hun a ddarparodd y canllawiau mwyaf trylwyr a oedd ar gael.[97] Mae rhai cyrff y trydydd sector a chyrff y diwydiant, fel Arts Council England ac Undeb y Cerddorion, wedi datblygu eu hadnoddau eu hunain, gyda'r olaf yn dweud nad oedd yr aelodau bron byth yn gofyn am arweiniad ganddo cyn Brexit.[98]

**69.** Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cydweithio â chymheiriaid yn y DU drwy Arts InfoPoint UK i ddarparu gwybodaeth am symudedd, yn enwedig ar gyfer artistiaid rhyngwladol sy'n dod i mewn i'r DU. Dywedodd y tystion wrthym, er bod Arts Infopoint UK yn adnodd gwerthfawr[99], ni all gwmpasu'r ystod lawn o wybodaeth gymhleth sydd ei hangen.[100] Disgrifiodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru "jig-so" o adnoddau ar gyfer y gwaith hwn a "dim cadernid na sicrwydd ariannu o gwbl" a dibyniaeth ar staff rhan-amser ar gontractau blynyddol.[101] Dywedodd yntau a'r cyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, Dawn Bowden AS, fod angen cymorth ariannol i dalu'r costau ychwanegol hyn.[102]

**70.** Roedd cefnogaeth i sefydlu hyb gwybodaeth canolog. Nododd Media Cymru fod siop un stop yn dal ar goll ac y byddai'n werthfawr i helpu i ddeall y rheolau a'r gofynion newydd.[103] Dywedodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru wrthym

---

[94] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 01, NoFit State Community Circus
[95] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 190
[96] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 72
[97] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 52
[98] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 15, Undeb y Cerddorion
[99] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 177
[100] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 193
[101] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 195
[102] Ymateb i'r ymgynghoriaf CEU 05, Cyngor Celyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Llywodraeth Cymru, Chwefror 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig
[103] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 02, Media Cymru

"…mae'r angen am arweiniad clir a chefnogaeth yn parhau i fod yn hollbwysig ar gyfer y posibilrwydd o adennill y tir a gollwyd a'r incwm".[104] Roedd UK Music yn cytuno y gall gwybodaeth bwrpasol, glir a hygyrch fod yn beth da.[105] Pwysleisiodd Equity y byddai cysondeb wrth gymhwyso'r rheolau yn gwella drwy gael un pwynt cyfeirio.[106]

## Ein barn ni

**71.** Mae'n amlwg i ni fod yr amser, yr ymdrech a'r adnoddau a ddefnyddir er mwyn dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy, clir a chywir yn anghymesur ac yn cael effaith andwyol. Roedd y rhwystredigaeth a fynegwyd gan y tystion yn amlwg, gyda llawer ohonynt yn dweud bod y baich ychwanegol yn anghynaliadwy yn yr hirdymor.

**72.** Er bod rhai tystion wedi cyfeirio at rôl bosibl yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru o ran darparu canllawiau, ni soniodd yr un ohonynt am gael mynediad uniongyrchol i ganllawiau a chymorth gan Lywodraeth Cymru . Y tu hwnt i gyllid ar gyfer Arts Infopoint UK, nid yw'n glir pa ganllawiau a chymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

**73.** Serch hynny, rydym yn croesawu barn y cyn-Ddirprwy Weinidog, y dylid darparu cymorth ariannol i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu canllawiau a chymorth dibynadwy, clir a chywir.

**74.** Fel y nodir ym mharagraff 65, credwn y byddai datrysiad rhwng y DU a'r UE yn lleddfu llawer o faterion a wynebir gan y sector, gan gynnwys y rhai'n ymwneud â chanllawiau a chymorth. Credwn fod cysylltiad annatod rhwng yr heriau a ddisgrifiwyd gan y tystion a chymhlethdod Brexit ar gyfer y sector.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa ganllawiau a chymorth y mae'n eu darparu i weithwyr creadigol ar weithio ar draws ffiniau ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb gynnwys manylion ynghylch pa wybodaeth sydd ar gael ar ei gwefan, rôl ei swyddfeydd cymorth allforio a thramor, ac unrhyw gyllid a ddarperir i drydydd partïon ar gyfer gwasanaethau cynghori.

[104] Ymateb i'r ymgynghoriaf CEU 12, Cwmni Dawns Cenedaethol Cymru
[105] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 190
[106] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 72

## 3. Cyllid a rhwydweithiau

**75.** Y tu allan i'r UE, nid oes gan y DU fynediad mwyach at raglenni cyllid yr UE ar gyfer y sector, fel Ewrop Greadigol, Erasmus+, cronfeydd strwythurol ac eraill. Er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys darpariaeth i'r DU gymryd rhan yn rhaglenni'r UE, nid yw Ewrop Greadigol ac Erasmus+ wedi'u cynnwys yn hynny ar hyn o bryd.

**76.** Soniodd y mwyafrif o'r tystion am golli nifer o ffynonellau cyllid, yr arferai sector celfyddydol a diwylliannol Cymru elwa'n fawr ohonynt.[107] Soniodd y tystion yn aml am effeithiau cronnol pwysau ariannol niferus yn sgil colli cyllid yr UE, costau gweithredu cynyddol, a thoriadau yn y gyllideb ddomestig.[108] Dywedodd y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithredu Rhanbarthol wrthym fod gostyngiad mewn incwm ar ôl i raglenni cyllido Ewropeaidd gael eu tynnu yn ôl, ynghyd â'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn gwaith papur a chostau fisa, yn golygu bod y busnes wedi dod i ben yn gyfan gwbl.[109] Dyweddod Jones y Ddawns wrthym fod y goblygiadau i'r sector dawns yng Nghymru yn ddinistriol, ac y byddai'n debygol o roi'r gorau i weithredu heb gyllid gan Ewrop Greadigol.[110] Cyfeiriodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru at y pwysau ariannol cynyddol hyn fel "storm berffaith lle mae'n mynd i wneud o'n hynod anodd i'n hartistiaid ni a'r cyrff sy'n eu cefnogi nhw i fedru goresgyn y storm"[111]:

> *"…we would as a sector be able to cope with this and meet this challenge, if it weren't for the fact that we are in the middle of a perfect storm and being hit from every direction. And, unfortunately, the loss of income as a result of Brexit and also the loss of public funding can no longer really be made up by earned income in the UK, because the cost-of-living crisis in the UK is now so extreme that our earning potential inside the UK has also been very significantly hit. People just can't afford to buy tickets."*[112]

---

[107] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 117
[108] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 153
[109] Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 16, Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithredu Rhanbarthol
[110] Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 10, Jones y Ddawns
[111] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 114
[112] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 120

**77.** Mae llawer o dystion yn cefnogi galwadau i'r DU gymryd rhan yn Ewrop Greadigol yn y dyfodol, ac yn tynnu sylw at gefnogaeth eang i hyn yn y DU ac yn yr UE.[113] Dywedodd British Council Cymru fod pawb wedi teimlo colli Ewrop Greadigol.[114] Yn ôl Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, y DU a gafodd y "y fantais fwyaf" o Ewrop Greadigol oherwydd mai hi oedd wedi arwain y nifer fwyaf o raglenni.[115]

**78.** Dywedodd y tystion fod y ffaith bod mynediad at y rhaglen wedi dod i ben yn golled i brosiectau amlieithog a chelfyddydol[116] ac i fuddsoddiad mewn cynyrchiadau teledu a ffilm.[117] Dywedodd Ffilmiau Wicked Cymru nad yw ei gyfraniad yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n cryfhau ceisiadau am gyllid.[118] Ychwanegodd Media Cymru fod ymdrechion glew i ailymuno ag Ewrop Greadigol yn anfon neges, ac yn ei gwneud yn glir bod yna ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r sector creadigol yn Ewrop a bod yn gysylltiedig â'r sector.[119]

**79.** Nododd British Council Cymru ganlyniadau ei arolwg a gynhaliwyd yn 2021 a ganfu fod 63 y cant o'r ymatebwyr yn honni eu bod yn fwy proffidiol, 76 y cant yn honni eu bod yn fwy gwydn yn ariannol, 86 y cant yn honni eu bod yn fwy cystadleuol, a 77 y cant yn honni bod eu trosiant wedi cynyddu pan oeddent yn rhan o Ewrop Greadigol.[120]

**80.** Cyfeiriodd llawer o'r tystion at yr ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth flaenorol y DU, na fyddai Cymru yn colli cyllid o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.[121] Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cyllid gan Lywodraeth y DU i ddisodli cyllid Ewropeaidd yr un fath o ran ei faint, na'i gwmpas. Dywedodd Teledwyr Annibynnol Cymru ("TAC") wrthym, er bod Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru yn "gwneud gwaith da iawn" o ran sicrhau cymorth a chyllid

113 Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru; Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 227, 228
114 Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 228
115 Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 172
116 Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
117 Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 11, Teledwyr Annibynnol Cymru
118 Ymateb i'r ymygynghoriaf CEU 17, Ffilmiau Wicked Cymru
119 Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 264
120 Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 228
121 Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 84, 124

ar gyfer cynyrchiadau teledu i werthu rhaglenni dramor, roedd y sector wedi colli "swm enfawr" o gyllid yr UE.[122]

**81.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor, o ran y DU Global Screen Fund (UKGSF) mai:

> *"… ychydig o ganlyniadau y mae Cymru wedi'u profi. Mae lefel siomedig o isel o ymgeiswyr o Gymru wedi elwa ar grant […] o'u cymharu â'r manteision llawer mwy… a ddaeth i ran cwmnïau o Gymru trwy raglenni MEDIA ac Ewrop Greadigol".*[123]

**82.** Roedd rhai tystion yn gweld rôl i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn o ran hyrwyddo'r ffrydiau cyllido sy'n disodli cyllid yr UE ac i weithio gyda Llywodraeth y DU i symleiddio'r prosesau ymgeisio.[124]

**83.** I'r gwrthwyneb, tynnodd tystion eraill sylw at y cynnydd yng nghyllidebau diwylliant yr UE ac Iwerddon ers Brexit, a bod yr hyn y mae Cymru yn ei golli yn fwy fyth.[125] Eglurodd British Council Cymru fod cyllideb Ewrop Greadigol yr UE wedi cynyddu 66 y cant ar ôl Brexit i €2.44 biliwn ar gyfer 2020-2027, a bod yr amcangyfrifon yn awgrymu y gallai'r DU fod wedi derbyn €184 miliwn pe bai wedi aros yn yr UE.[126] Ychwanegodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fod gan Ewrop Greadigol hefyd elfen yn ymwneud â symudedd o'r enw Culture Moves Europe.[127]

**84.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhannu ei hasesiad o'r effaith economaidd ar y sector diwylliannol.

**85.** Dywedodd llawer o'r tystion wrth y Pwyllgor, er bod colli cyllid yn ffactor pwysig, eu bod hefyd wedi colli mynediad at rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yr UE. Disgrifiodd British Council Cymru y wybodaeth a gafwyd drwy'r rhwydweithiau hyn fel gwybodaeth amhrisiadwy, yn enwedig gan wledydd bach, dwyieithog sy'n debyg i Gymru.[128] Disgrifiodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru y rhwydweithiau

---

[122] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 215
[123] Llywodraeth Cymru, Chewfror 2024, Tystiolaeth ysgifenedig
[124] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 276
[125] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 84
[126] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 14, British Council
[127] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
[128] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 117

fel "hanfodol" a thynnodd sylw at y ffaith bod llawer o rwydweithiau'r UE yn cynnig aelodaeth i wledydd o'r tu allan i'r UE.[129] Dywedodd Theatr Byd Bach fod ei rhwydweithiau wedi lleihau'n sylweddol,[130] a dywedodd y Farwnes Bull eu bod yn sicrhau nad yw artistiaid sy'n gweithio mewn grwpiau bach neu'n unigol, ar eu pen eu hunain.[131]

**86.** Disgrifiodd British Council Cymru sut y bu'n rhaid iddo gamu'n ôl o fod yn arweinydd ar rai prosiectau arloesol a ariannwyd gan Ewrop Greadigol a'i fod bellach yn talu ffi i fod yn bartner cyswllt er mwyn sicrhau bod y DU yn parhau i gymryd rhan.[132] Talodd deyrnged i sefydliadau yn y sector, fel Celfyddydau Anabledd Cymru, sy'n arwain gwaith anhygoel yn groes i bob disgwyl drwy greu eu rhwydweithiau Ewropeaidd eu hunain. Fodd bynnag, dywedodd na fyddai'r gwaith hwn yn gynaliadwy yn y dyfodol o ystyried y darlun ehangach o doriadau yn y gyllideb yng Nghymru.[133]

**87.** Dywedodd y tystion wrthym am fanteision ehangach cymryd rhan yn rhaglenni'r UE gan gynnwys rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, meithrin gallu a datblygu sgiliau, mynediad i farchnadoedd newydd, amrywiaeth diwylliannol a rhaglenni cyfnewid diwylliannol. Yn ôl Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, roedd eu gallu i roi adborth, gwneud cysylltiadau ac agor drysau i'r sector wedi lleihau.[134]

**88.** Disgrifiodd British Council Cymru y diffyg mynediad i rwydweithiau fel rhywbeth ynysig a dywedodd fod eu partneriaid yn Aelod-wladwriaethau'r UE yn gweld eisiau presenoldeb y DU a'r arbenigedd yr oedd y DU yn ei gyfrannu i raglenni fel Ewrop Greadigol yn fawr iawn.[135] Roedd y Llfyrgell Genedlaethol yn gobeithio y byddai Strategaeth Ddiwylliant arfaethedig Llywodraeth Cymru yn agor cyfleoedd newydd i ddatblygu cysylltiadau diwylliannol newydd â'r UE.[136]

---

[129] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
[130] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 105
[131] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 67
[132] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 247
[133] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 244
[134] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 233
[135] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 228
[136] Ymateb i'r ymgynghoriaf CEU 07, Llfyrgell Cenedlaethol Cymru

**89.** Tynnodd Dr Charlotte Faucher sylw at lwyddiant rhaglen gyfnewid Taith Llywodraeth Cymru[137] fel cam cadarnhaol tuag at liniaru rhai o'r colledion a ddeilliodd o ymadawiad y DU o'r rhaglen Erasmus+, gan ddweud bod pobl yng Nghymru yn teimlo bod ganddynt fwy o siawns o gael cyfle. Awgrymodd y byddai rhaglen gyfatebol i helpu i lenwi'r bwlch a adawyd gan Ewrop Greadigol o gymorth.[138] Nododd British Council Cymru fod galw mawr o hyd am addysg greadigol ac am fuddsoddi arian yn Erasmus+ o ran maint y rhwydweithiau a chyllid.[139]

**90.** Galwodd WNO am Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer cydgynyrchiadau i gynorthwyo gyda'r gost o weithio a theithio yn yr UE i annog cwmnïau'r UE i ymgysylltu a gweithio gyda nhw, a gallai hynny liniaru rhai o'r costau ychwanegol y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd.[140] Dywedodd unawdydd yng ngŵyl Lleisiau Eraill hefyd y byddai cael y math hwn o gyllid yn gwneud i deithio deimlo'n bosibl.[141]

**91.** Soniodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am alwadau blaenorol i Gymru gysylltu ag Ewrop Greadigol fel cynrychiolydd rhanbarthol trydedd wlad.[142] Fodd bynnag, nid yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gwneud unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

**92.** Dywedodd Laurence Farreng ASE wrthym fod y cyn-Gomisiwn Ewropeaidd yn agored i drafod cyfranogiad y DU mewn rhaglenni perthnasol yn y dyfodol:

> *"Today the European Commission leaves the door open to any kind of association with the UK".*[143]

[137] Rhaglen gyfnewid Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu sy'n cyllido pobl yng Nghymru i astudio, gwirfoddoli, hyfforddi a gweithio ar draws y byd.
[138] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 99
[139] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 146
[140] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 174
[141] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 50
[142] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 05, Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
[143] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 46

## Ein barn ni

**93.** Mae’r dystiolaeth a gawsom yn amlygu bod colli mynediad at raglenni cyllid yr UE fel Ewrop Greadigol ac Erasmus+ wedi effeithio’n sylweddol ar allu’r sectorau i gynnal prosiectau a phartneriaethau.

**94.** Yn ogystal â darparu cymorth ariannol hanfodol, darparodd y mentrau hyn hefyd fframwaith ar gyfer cydweithio trawsffiniol a oedd yn cryfhau’r sector cyfan drwy fuddsoddiad, cyfle, ac arloesi. Rydym wedi clywed sut y mae colli’r cymorth hwn wedi cael effaith ddofn, gyda llawer o sefydliadau bellach yn ei chael hi’n anodd cynnal hyd yn oed gysylltiadau llawer llai.

**95.** Drwy adael rhaglenni cyllido a rhwydweithiau’r UE, mae sefydliadau diwylliannol Cymru mewn perygl o gael eu gadael ar ôl, wrth i gymheiriaid Ewropeaidd barhau i elwa ar fynediad at fwy o gyllid a mwy o gydweithio ar draws ffiniau heb y DU.

**96.** At hynny, mae strwythurau cymorth allweddol yn cael eu datgymalu a hebddynt mae ein sector diwylliannol yn llawer mwy agored i’r “storm berffaith” o bwysau economaidd yn sgil y pandemig, y cynnydd mewn costau gweithredol, a thoriadau i gyllid y sector cyhoeddus.

**97.** I lawer, mae’n bosibl y bydd absenoldeb y gefnogaeth hollbwysig hon yn drobwynt sy’n gwneud goroesi mewn amgylchedd economaidd cynyddol elyniaethus yn anoddach fyth gan i’n cyrff diwylliannol cenedlaethol ddweud wrthym eu bod hefyd yn cael trafferth addasu a newid eu modelau yn ddigon cyflym i oresgyn yr heriau presennol.

**98.** Mae cynnal sector diwylliannol bywiog yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn weladwy, yn gystadleuol ac yn bresennol ar y llwyfan byd-eang. Y sector diwylliannol yw un o gonglfeini grym meddal Cymru – dylai allforio ein treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog chwarae rhan allweddol yn y broses o lunio delwedd fyd-eang ein gwlad. Os caniateir i’r sector ddirywio, bydd gallu Cymru i gyfleu ei chreadigrwydd a’i harloesedd yn allanol yn cael ei wanhau’n enbyd.

**99.** Rydym yn cefnogi’r galwadau i’r DU fod yn gysylltiedig ag Ewrop Greadigol ac Erasmus+ a’r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys hyn fel blaenoriaeth ar gyfer yr adolygiad arfaethedig o weithredu’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Clywsom gan Laurence Farreng ASE fod y drws ar agor yn Ewrop i gael trafodaethau ar y mater hwn ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i achub ar y cyfle hwn i gychwyn deialog ystyrlon yn y dyfodol.

**100.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol iawn bod effeithiau'r argyfyngau presennol yn cael eu teimlo yn awr a bod colledion diwylliannol, ariannol a sefydliadol eisoes wedi digwydd, na ellir eu hadennill o bosibl. Felly, er bod ailymuno ag Ewrop Greadigol ac Erasmus+ yn atebion hirdymor pwysig, rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar unwaith.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o effaith Brexit ar y sector diwylliannol yng Nghymru.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa gamau y mae wedi'u cymryd i liniaru effaith Brexit ar y sector, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, a pha gamau y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol, mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

## 4. Cyfryngau clyweledol

**101.** Prif fframwaith rheoleiddio'r UE ar gyfer gwasanaethau darlledu a fideo ar gais yw'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (y Gyfarwyddeb), sy'n cydlynu deddfwriaeth glyweledol ar draws gwledydd yr UE.

**102.** Ar ôl Brexit, mae rhai gweithiau yn y DU yn parhau i gael eu categoreiddio fel "gweithiau Ewropeaidd" o dan y Gyfarwyddeb, naill ai oherwydd aelodaeth y DU o Gonfensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol Cyngor Ewrop 1993 neu oherwydd bod gweithiau'r DU yn bodloni meini prawf gwlad tarddiad y Gyfarwyddeb. Mae hyn yn caniatáu i gynnwys y DU gael ei ystyried o hyd ar gyfer cwotâu cynnwys yr UE, sy'n arwyddocaol gan fod tua 30% o'r gweithiau[144] ar lwyfannau ffrydio'r UE yn gydgynyrchiadau a gynhyrchir yn y DU neu ar y cyd rhwng y DU ac UDA.

**103.** Rhybuddiodd BECTU am wahaniaethau rheoleiddiol posibl rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Rhybuddiodd y gallai'r DU ei chael hi'n anodd gwrthsefyll dylanwad y cewri byd-eang fel Netflix, Disney, Apple, ac Amazon heb rym negodi cyfunol yr UE. Gallai hyn erydu gallu'r DU i reoleiddio a diogelu ei diwydiant clyweledol yn annibynnol. Galwodd BECTU hefyd ar i'r DU ailymuno â chronfa cymorth sinema EURIMAGES Cyngor Ewrop, a adawodd y DU ym 1996 oherwydd cyfyngiadau cyllidebol ac i sicrhau bod yr UKGSF yn cael ei ariannu'n dda ac yn cael digon o adnoddau. Dywedodd y gallai ailymuno roi cymorth ariannol mawr ei angen ar gyfer cynhyrchu ffilmiau yn y DU.[145]

[144] Screen Daily, The US streamer squeeze: Why Europe is taking on SVoDs, 13 September 2023
[145] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 66

**104.** Pwysleisiodd TAC bwysigrwydd sicrhau bod y DU yn cynnal ei haelodaeth o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau bod cynyrchiadau'r DU yn parhau i gael eu categoreiddio fel gweithiau Ewropeaidd, gan ganiatáu iddynt elwa ar sianeli dosbarthu'r UE.[146] Argymhellodd Laurence Farreng ASE hefyd y dylai'r Pwyllgor fonitro diwygiadau i'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn fanwl i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hystyried yn ddigonol.

### Ein barn ni

**105.** Nodwn fod cydweithredu clyweledol wedi'i eithrio'n benodol o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Nodwn fod hefyd Barn Pwyllgor Diwylliant ac Addysg Senedd Ewrop[147] ac adroddiad ar weithredu'r DU-UE Cytundeb Masnach a Chydweithredu[148] yn disgrifio dull gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu fel "eithriad diwylliannol".

**106.** Er bod rhai darpariaethau'n dal i ganiatáu i waith o'r DU fanteisio ar fframweithiau dosbarthu Ewropeaidd, mae eithrio gwasanaethau clyweledol o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gwahaniaethau rheoleiddiol posibl yn peri risgiau sylweddol. Gallai ymadawiad y DU ym 1996 o gronfa EURIMAGES a goruchafiaeth platfformau cyfryngau byd-eang roi mwy o bwysau ar allu'r DU i gystadlu yn y farchnad glyweledol fyd-eang. Rydym yn cytuno â phwysigrwydd sicrhau bod Cymru a'r DU yn parhau i ymwneud â fframweithiau rheoleiddio Ewropeaidd, fel y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol, a monitro datblygiadau fel adnewyddu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol.

## 5. Rôl y Pwyllgor

**107.** Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth gan y tystion ynghylch ei rôl o ran mynd i'r afael â'r materion a gwmpesir gan ei ymchwiliad.

**108.** Argymhellodd yr Athro Catherine Barnard y dylai'r Pwyllgor roi pwysau ar Lywodraeth y DU, a pharhau i roi pwysau arni i fynd i'r afael â'r materion hyn: roedd yn teimlo y byddai cael rhywle i wyntyllu'r materion hyn bwysig iawn.[149]

[146] Ymateb i'r ymgynghoriad CEU 11, Teledwyr Annibynnol Cymru
[147] Barn Pwyllgor Diwylliant ac Addysg Senedd Ewrop, 7 Medi 2024
[148] Senedd Ewrop, adroddiad ar weithredu'r DU-UE Cytundeb Masnach a Chydweithredu, 23 Tachwedd 2023
[149] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraffau 97-103

**109.** Soniodd Undeb y Cerddorion am yr angen am gydnabyddiaeth bod hon yn broblem ddifrifol i'r diwydiant a bod angen dod o hyd i atebion fel blaenoriaeth ac adfer ymddiriedaeth y diwydiant. Dywedodd hefyd fod yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn flaenoriaeth.[150]

**110.** Argymhellodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ein bod yn cadw llygad ar sut y mae'r materion hyn yn cael eu gweithredu a "…rhoi llais i'r byd am beth sy'n mynd ymlaen yma" yng Nghymru.[151] Soniodd TAC a NoFit State am yr angen i wrthsefyll y canfyddiad bod Cymru yn rhy gymhleth, yn anghyraeddadwy ac yn anghroesawgar.[152]

**111.** Pwysleisiodd y Farwnes Bull bwysigrwydd adrodd straeon, gan annog y Pwyllgor i eirioli dros y sector yng Nghymru drwy gyfuno naratif â data a thystiolaeth:

> *"It is very powerful when it comes from politicians, so, I think, don't underestimate the impact that it will have when you all speak up for, speak to and speak with the sector."*

**112.** Tynnodd sylw hefyd at werth y celfyddydau a diwylliant y tu hwnt i'w cyfraniad economaidd, gan bwysleisio'r effaith ar gymunedau a llesiant personol:

> *"…it has become normal to justify arts and culture through the economic contribution, through the contribution to jobs and through their role in innovation […] but we shouldn't forget, too, their role in communities, in our personal lives, in our hinterland, where we go for resilience, strength and so on.*
>
> *These things are as important; they're much harder to quantify and it can get awfully waffly when you talk about it, but, actually, they really do matter. It's great if it's not just people like me who are saying those things, but it's people, may I say, like you—people in the seats of power."*

[150] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 71
[151] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 253
[152] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 77, 210

**113.** Roedd y Farwnes Bull hefyd yn credu ein bod mewn sefyllfa dda i dreulio amser yn grymuso Gweinidogion i gadw'r mater hwn ar yr agenda ac i gadw sianeli ar agor gyda'r sector.[153]

**114.** Awgrymodd Undeb y Cerddorion y dylid fframio celfyddydau a diwylliant trawsffiniol mewn termau economaidd, fel blaenoriaeth allforio a blaenoriaeth economaidd.[154]

**115.** Argymhellodd Dr Charlotte Faucher y gallai'r Pwyllgor edrych ar sut y mae swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru yn cefnogi artistiaid, yn enwedig mewn perthynas â'r agweddau'n ymwneud â masnach.[155]

**116.** Gofynnodd Theatr Byd Bach i'r Senedd alw ar Lywodraeth y DU i ailymuno â'r UE[156] ac i gefnogi rhyddid i symud mewn perthynas â syniadau.[157]

**117.** Dywedodd Laurence Farreng ASE fod gennym rôl o ran diffinio ac ein cyd-hanes y gallwn nawr ei ysgrifennu ar gyfer y dyfodol. O ran ailadeiladu trefniadau cydweithredu, dywedodd fod pŵer meddal yn bwysig a bod popeth yn dechrau gyda diwylliant. Mae diwylliant wrth galon popeth, meddai, a mater i ni yw ei roi wrth wraidd unrhyw gysylltiadau a fydd gennym yn y dyfodol.[158]

## Ein barn ni

**118.** Rydym yn croesawu'n fawr y ffaith bod y tystion yn gweld ein rôl ni fel rôl gwarcheidwaid eu profiadau a'u lleisiau. Mae eu hymddiriedaeth ynom yn gwneud i ni deimlo'n wirioneddol wylaidd ac mae'n ein hysgogi.

**119.** Mae'r dystiolaeth yn amlygu effaith ddwys, amlochrog a phersonol ymadawiad y DU â'r UE.

[153] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 65-67
[154] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 73
[155] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 144
[156] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 162
[157] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 182
[158] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraffau 54-55

**120.** Byddwn yn eirioli dros y sector, nid yn unig drwy gyflwyno’r goblygiadau economaidd, ond hefyd drwy hyrwyddo manteision anfesuradwy rhaglenni cyfnewid artistig â gwledydd eraill.

**121.** Cawn ein hannog i barhau i roi pwysau ar lywodraethau i feithrin ymddiriedaeth rhwng y DU a’r UE ac i gefnogi sector creadigol Cymru i gynnal ac adfer y cysylltiadau ag Ewrop.

**122.** Rydym yn cefnogi’r galwadau i hyrwyddo Cymru fel lle agored, bywiog a chynhwysol ar gyfer gweithwyr creadigol a byddwn yn defnyddio’r dylanwadau diplomyddol sydd gennym i wneud hyn.

**123.** Yn unol ag argymhelliad y Farwnes Bull, rydym yn ystyried bod adrodd straeon yn arf pwerus. Rhaid i’r Pwyllgor rannu’r naratif a rhoi llais cryfach, cyfunol i’r sector.

**124.** Dyma ein haddewid i’r sector. Byddwn yn hyrwyddo’r gwaith hwn yng Nghymru drwy

- adrodd y stori. Mae hyn yn dechrau drwy ddwyn ynghyd, am y tro cyntaf, y dystiolaeth o Gymru mewn un adnodd cynhwysfawr i roi llais cryfach, cyfunol i’r sector.
- gweithio i herio a chwalu’r canfyddiadau bod Cymru a’r DU yn anghroesawgar.
- gweithio i barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i atebion fel y nodir yn yr adroddiad hwn.
- cadw sianeli cyfathrebu ar agor gyda rhanddeiliaid ar y materion hyn ar gyfer gweddill y Chweched Senedd.
- codi materion sy’n ymwneud yn benodol â Chymru ac Iwerddon gyda Llywodraeth Cymru ac yn ein cyswllt rheolaidd â phartneriaid allweddol yn Iwerddon, gan gynnwys yr Oireachtas a Llywodraeth Iwerddon.

# Rhan Dau: Cymru o ran y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

## 6. Fframwaith cyfansoddiadol

**125.** Mae ail ran yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gymru o ran y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Mae'n cynnwys y fframwaith cyfansoddiadol a'r ysgogiadau sydd ar gael i ni ac i Lywodraeth Cymru i ddylanwadu a sicrhau gwelliannau.

**126.** Mae'r materion yn yr ymchwiliad hwn yn ymwneud â'r cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a'r cysylltiadau rhynglywodraethol domestig. O ran yr olaf, maent yn cwmpasu cyfrifoldebau datganoledig yn ogystal â'r rhai a gadwyd yn ôl, ac adrannau lluosog a phortffolios gweinidogol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

### 6.1 Y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**127.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywodraethu'r berthynas rhwng yr UE a'r DU ar ôl Brexit ac yn sefydlu fframwaith sefydliadol newydd o bwyllgorau a gweithgorau i oruchwylio'r ffordd y caiff ei weithredu a'i gymhwyso (gweler paragraffau 56 a 57). Cynrychiolir y DU yn bennaf gan Lywodraeth y DU ar y fforymau gwneud penderfyniadau hyn rhwng y DU a'r UE.

**128.** Dywedodd llawer o'r tystion wrthym fod y cysylltiadau wedi gwella ers i Fframwaith Windsor ddod i ben. Dywedodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS, wrthym y bu mwy o gydweithio.[159] Yn ôl cyn-Brif Weinidog Cymru, Vaughan Gething AS, mae'r cysylltiadau wedi 'dadmer' ac mae mwy o awydd o du'r UE am fwy o ymgysylltu â Chymru a'r DU.[160] Cydnabu Laurence Farreng ASE fod y cyd-destun gwleidyddol yn esblygu, sy'n golygu bod ein cysylltiadau hefyd yn esblygu.[161]

[159] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 17
[160] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraff 43
[161] Cylchlythyr y Pwyllgor Diwylliant ac Addysg, Senedd Ewrop
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 21

## Cynrychiolaeth o Gymru ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**129.** Cynrychiolir Cymru yn fforymau gwneud penderfyniadau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu drwy statws sylwedydd Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd sy'n ymgorffori materion datganoledig, a thrwy gynrychiolwyr y Senedd yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Mae gan Gymru hefyd bresenoldeb ar Grŵp Cynghori Domestig a Fforwm Cymdeithas Sifil y DU.

**130.** Dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi profi'r lefel o ymgysylltu â Llywodraeth y DU y byddai'n ei ddymuno.[162] Dywedodd:

> *"I made the decision, when I was the economy Minister, that it was not a good use of my time to sit and observe a meeting that I wasn't going to be able to participate in."*[163]

**131.** Cafodd rhai tystion brofiad uniongyrchol o gynrychiolaeth Cymru yng nghyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Yn ôl UK Music, aelod o'r Grŵp Cynghori Domestig, mae Cymru a'r sector diwylliannol yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol.[164] Dywedodd y Farwnes Bull, sy'n aelod o'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol, ei bod yn ddrwg iawn ganddi glywed nad yw Cymru'n cael ei chynrychioli'n ddigonol.[165] Mae'r Athro Catherine Barnard hefyd wedi dadlau o'r blaen dros fwy o rôl i weinyddiaethau datganoledig ym mhroses gwneud penderfyniadau y DU a'r UE.[166]

## Adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**132.** Disgwylir yr adolygiad cyntaf o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, y mae'n ofynnol ei gynnal bob pum mlynedd, erbyn 1 Mai 2026 a disgwylir i'r gwaith ddechrau yn 2025. Mae union gwmpas yr adolygiad ac i ba raddau y bydd yn caniatáu i newidiadau sylweddol gael eu gwneud yn parhau i fod yn aneglur.

---

[162] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraff 32
[163] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraff 32
[164] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 206
[165] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 08 Chwefror 2024, gofnod y trafodion, paragraff 21
[166] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cfyiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE, Tachwedd 2023

**133.** Rhybuddiodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS, y bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar weithrediad trefniadau presennol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac nad yw'n gyfle i wneud newidiadau nac ychwanegu elfennau newydd.[167] Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn dadlau dros adolygiad ehangach a dull gweithredu mwy uchelgeisiol.[168]

**134.** Mae rhai yn gweld yr adolygiad fel cyfle i bwyso a mesur gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a mynegwyd gobaith, ar ôl etholiadau'r UE a'r DU, y byddai cyfleoedd i sicrhau bod gan Gymru lais yn y trefniadau llywodraethu a pharodrwydd i weld adolygiad mwy sylweddol.[169] Dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, wrthym mai man cychwyn i Lywodraeth Cymru fydd deall y dull y bydd Llywodraeth newydd y DU am ei fabwysiadu.[170]

**135.** Cyfeiriodd y tystion at yr adolygiad fel cyfle pwysig i wneud gwelliannau. Dywedodd y Farwnes Bull wrth yr Aelodau ei bod yn credu bod llawer o feysydd wedi'u hepgor o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a bod yn rhaid ystyried yr adolygiad fel rhywbeth a all wneud gwahaniaeth.[171]

**136.** Nododd yr Athro Catherine Barnard nad oes angen i'r DU a'r UE aros am broses adolygu ffurfiol er mwyn newid eu perthynas newydd. Gallant ddiwygio'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, neu gwblhau cytundebau atodol ar unrhyw adeg. Dywedodd fod cytundebau atodol i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi'u rhagweld o'r cychwyn a bod hwn yn opsiwn arall y gellid ei archwilio mewn amgylchedd gwleidyddol ffafriol.[172]

### Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru

**137.** Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol 2022-23, fe wnaethom amlygu bod yr UE yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth

---

[167] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 78
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 154
[168] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 82
[169] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 67
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraff 31
[170] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraff 44
[171] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 21
[172] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 155

Cymru a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae absenoldeb strategaethau penodol ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ar lefel y DU a Chymru, yn cyflwyno heriau wrth geisio deall y berthynas ar ôl Brexit a chraffu'n effeithiol arni. Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn gyda strategaeth benodol ar gyfer yr UE a thrwy gynnwys yr UE fel perthynas â blaenoriaeth yn ei Strategaeth Ryngwladol.[173]

**138.** Mewn ymateb i hynny, dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, y byddai Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn destun "diweddariad meddal" pan ddaw i ben yn 2025 ac y bydd y llywodraeth "yn defnyddio'r cyfle hwn i wneud y dimensiwn Ewropeaidd yn fwy eglur".[174] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys y Pwyllgor yn y broses hon.[175]

**139.** Mewn tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn, dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, wrthym ei fod o'r un farn â'r cyn-Brif Weinidog, sef nad oes angen strategaeth benodol ar gyfer yr UE ar Gymru. Dywedodd fod hynny wedi'i amlinellu'n glir iawn yn strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru.[176]

## Ein barn ni

**140.** Ym mis Hydref 2022, wrth ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, daethom i naw casgliad ar sut y caiff Cymru ei chynrychioli yn y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit.[177] Nodwn nad aethpwyd i'r afael â llawer o'r casgliadau hyn a chredwn ei bod yn amserol gofyn am farn Llywodraeth Cymru ar rai o'r pwyntiau a godwyd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

**141.** Rydym yn ailadrodd ein casgliadau blaenorol ynghylch sut y caiff Cymru ei chynrychioli yn y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac yn parhau i alw am strategaeth glir a chydlynol sy'n nodi dull gweithredu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru a'r UE, a'r DU a'r UE.

**142.** Rydym yn cytuno â'r tystion bod adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gyfle da i geisio datrys y materion a gwmpesir gan yr

---

[173] Adroddiad Blynyddol 2022-23 y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
[174] Ymateb ysgrifenedig cyn-Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, i Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23, 16 Ionawr 2024
[175] Tystiolaeth ysgrifenedig cyn-Brif Weinidog Cymru, Vaughan Gething AS, 1 Awst 2024
[176] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gofnod, y trafodiod, 19 Mehefin 2024, paragraff 43
[177] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Hydref 2022

ymchwiliad hwn. Rydym yn annog y DU a'r UE i fabwysiadu agwedd eang tuag at yr adolygiad ei hun a'r dehongliad ehangaf posibl o Erthygl 776 sy'n darparu ar gyfer adolygu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu hefyd.

**143.** O ystyried arwyddocâd yr adolygiad, rydym yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad traws-bwyllgor[178] yn y Senedd i sicrhau bod persbectif Cymreig yn cael ei gynnwys yn y broses. Byddwn yn gweithredu ar y materion a godwyd yn yr ymchwiliad hwn wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn annog y DU a'r UE i flaenoriaethu trefniadau newydd ar gyfer gweithwyr creadigol yn yr adolygiad gweithredu arfaethedig o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r bwriad o fwrw ymlaen ag argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar artistiaid teithiol.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gwaith creadigol trawsffiniol fel blaenoriaeth mewn strategaeth glir a chydlynol sy'n nodi ei huchelgais ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a Chymru a'r UE.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ei barn bresennol ar sut y caiff Cymru ei chynrychioli yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

## 6.2 Y berthynas rhwng pedair llywodraeth y DU

**144.** Mae'r ymchwiliad hwn yn cwmpasu sawl adran a phortffolio gweinidogol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, fel sydd i'w weld ar y dudalen ganlynol.

**145.** Daeth Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol Llywodraeth y DU i ben ym mis Ionawr 2022 a sefydlodd ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y pedair llywodraeth ar ôl Brexit. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Grwpiau Rhyngweinidogol gyda'r bwriad o hwyluso trafodaethau amlochrog rheolaidd ar lefel portffolio rhwng gweinidogion, a Phwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol i'w goruchwylio. Mae tri Grŵp Rhyngweinidogol o bosibl yn berthnasol i'r ymchwiliad – y rhai ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, Masnach, a Diwylliant a Diwydiannau Creadigol ("y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant").

[178] Ymgynghoriad: Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

| Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru | Cyfrifoldeb ar y cyd | Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU |
|---|---|---|
| | Negodiadau rhwng y DU a'r UE | Prif Weinidog<br>Tramor |
| | Symudiad nwyddau | Masnach |
| | Symudiad pobl | Cartref<br>Masnach<br>Tramor |
| Diwylliant | Diwylliant a'r celfyddydau | |
| | Darlledu | Diwylliant |
| Prif Weinidog<br>Diwylliant<br>Economi | Cysylltiadau Rhynglywodraethol (CR) | Prif Weinidog<br>CR<br>Tramor<br>Diwylliant |
| Diwylliant<br>Economi | Canllawiau a cymorth | Diwylliant<br>Tramor<br>Masnach |
| Prif Weinidog<br>Diwylliant<br>Economi | Cyllid | Diwylliant<br>Tramor |

**146.** Yn dilyn pob cyfarfod o'r Grwpiau Rhyngweinidogol, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig sy'n rhestru'r prif faterion a drafodwyd. Nid yw'r materion a godwyd yn yr ymchwiliad hwn wedi'u hadlewyrchu yn y datganiadau ysgrifenedig o'r saith cyfarfod Grwpiau Rhyngweinidogol a gynhaliwyd yn 2023. Yn ogystal, nid yw'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant, a gyfarfu am y tro cyntaf ers Brexit ar 2 Mai 2024, yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn ei ddatganiad ychwaith.

**147.** Dywedodd cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS, wrthym fod y berthynas mewn cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol wedi gwella ers y cytundeb ar Fframwaith Windsor, a bod blaenoriaethau'r sector diwylliannol wedi'u codi mewn perthynas â fisas ac Ewrop Greadigol yn benodol.[179]

**148.** Dywedodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Lesley Griffiths AS, fod cysylltiad gweinidogol yn bwysig er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.[180]

**149.** Eglurodd UK Music, ar ôl i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gael ei gytuno, fod llawer o weithgarwch a oedd yn dod â'r pedair llywodraeth at ei gilydd ac roedd hynny'n gadarnhaol ond fe ddiflannodd gydag amser. Roedd yn awgrymu y dylid ailgyflwyno trefniant tebyg.[181]

**150.** Esboniodd yr Athro Catherine Barnard nad yw'r ffaith bod rhai o'r materion hyn yn faterion a gadwyd yn ôl yn rhoi llawer o gyfle i'r llywodraethau a'r seneddau datganoledig. Fodd bynnag:

> *"…what you can do is you can, in the devolveds, be lobbying, pushing, if not the Home Office, but at least the Foreign Office, who may or not be leading the TCA implementation review, and also the Department for Business and Trade, to see what they can do to try and address some of these really fundamental problems."*[182]

---

[179] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 36

[180] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraffau 30, 57

[181] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 08 Chwefror 2024, gofnod y trafodion, paragraff 205

[182] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 97

**151.** Dywedodd y Farwnes Bull wrth y Pwyllgor:

> *"…it seems to me that any issue will only be solved by cross-departmental working, and yet the structures seem to pull so strongly against that. And what we have here, DCMS will be fronting much of this, but, of course, they don't hold the levers for issues of immigration or for the TCA, which sits under […] the FCDO, so it becomes, as you say, like navigating a maze and needing, really, to encourage multiple people to speak to each other."*[183]

## Ein barn ni

**152.** Fel Pwyllgor, rydym ninnau hefyd wedi profi cymhlethdodau trefniadau cyfansoddiadol y DU fel y maent yn berthnasol i'r sefyllfa hon. Nid oes yr un gweinidog nac adran o fewn Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU mewn sefyllfa i ddarparu ateb cynhwysfawr i'r holl faterion y mae ein hymchwiliad wedi'u hamlygu. Yn ein profiad ni, mae'r ffordd y mae cyfrifoldebau gweinidogion wedi'u rhannu a'u lledaenu yn ddigyffelyb. Enghraifft o'r cymhlethdod yw'r ffaith ein bod, yn ystod ein hymchwiliad, wedi cael tystiolaeth gan ddeg o weinidogion, nad oedd yr un ohonynt yn ei swydd adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys dau o gyn-Brif Weinidogion Cymru.

**153.** Rydym yn cytuno â'r tystion a ddywedodd na ellir datrys y materion hyn heb waith rhynglywodraethol a thrawsadrannol effeithiol. Mae'r ffordd y mae llywodraethau'r DU yn cydweithio yn ffactor hollbwysig a thyngedfennol i ddatrys y problemau tra hysbys sy'n wynebu'r sector.

**154.** Gan hynny, roeddem yn siomedig o glywed nad oedd yr ymdrechion cychwynnol i gydgysylltu dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan wedi parhau. At hynny, nid ydym yn argyhoeddedig bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r proffil haeddiannol i'r materion hyn. Ymddengys fod y system cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol ar ôl Brexit wedi gwneud cam â'r sector gan olygu nad yw ei sefyllfa, yn anffodus, wedi'i dogfennu.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r materion hyn mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Dylai gymryd camau ymarferol, megis awgrymu'r canlynol fel eitemau sefydlog ar yr agenda nes bydd y sefyllfa'n gwella:

[183] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 08 Chwefror 2024, gofnod y trafodion, paragraff 47

i. gwella'r trefniadau ar ôl Brexit ar gyfer gweithwyr creadigol, gan gynnwys drwy'r adolygiad arfaethedig o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu; a

ii. cysylltiad y DU ag Erasmus+ ac Ewrop Greadigol.

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o leiaf unwaith y tymor ar drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol ar y materion penodol hyn am weddill y Chweched Senedd.

### 6.3 Llywodraeth y DU

**155.** Derbyniodd y Pwyllgor lythyr ar y cyd gan bedwar o weinidogion y DU yn amlinellu camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r sector yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau mewn partneriaeth ag S4C, Cymdeithas Teledwyr Annibynnol Cymru, ac yn Uwchgynhadledd Sgrin Cymru yn 2023.

**156.** Mae'r llythyr yn cydnabod:

> *"The TCA is one of the most comprehensive free trade agreements in the world and our aim is to make the most of it. However, it was inevitable that following the UK's departure from the EU there would be changes to the arrangements under which UK creative and cultural professionals operate in the EU, and vice versa. and Scottish governments."*[184]

### 6.4 Llywodraeth yr Alban

**157.** Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ymrwymiadau i gefnogi sector diwylliannol a chreadigol yr Alban ym mis Mawrth 2024. Yn ei Strategaeth Diwylliant Rhyngwladol, mae Llywodraeth yr Alban yn gwneud sawl ymrwymiad i gefnogi'r sector yn yr Alban, gan gynnwys:

- parhau i wthio Llywodraeth y DU i weithio gyda llywodraethau eraill a'r UE i gefnogi trefniadau ble nad oes angen fisa ar gyfer artistiaid teithiol;
- ystyried pa fesurau a allai gefnogi artistiaid yr Alban i fynd i'r afael â'r heriau hyn;

[184] Llywodraeth y DU, tystiolaeth ysgrifenedig, 03 Mai 2024

- cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu gwasanaeth cymorth ar gyfer allforio a chyfnewid cynnyrch diwylliannol;
- ystyried sut y gellir gwella cysylltiadau â rhaglen Ewrop Greadigol fel y gall sefydliadau diwylliannol yr Alban ailgysylltu â'r sianelau hanfodol ar gyfer cyfnewid, cydweithio a dysgu y mae'r rhaglen yn eu hwyluso; a
- parhau i lobïo Llywodraeth y DU i ailymuno â'r rhaglen Ewrop Greadigol.

**158.** Mae Llywodraeth yr Alban yn dweud y bydd addasu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r UE i adlewyrchu anghenion y sector yn well yn hollbwysig hefyd. Mae sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol creadigol ryddid i symud yn cael ei restru fel nod penodol.[185]

## 7. Llywodraeth Cymru

**159.** Yn gyntaf, eglurodd Llywodraeth Cymru fod ganddi bryderon sylweddol am oblygiadau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ym mis Chwefror 2021.[186] Dywedodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS, wrthym:

> *"I think we've been using language about 'limited'. I would say it's [the TCA] fundamentally inadequate to meet the needs of Wales. [...] I think the example the committee's looking at today is one of many examples on which we anticipated there'd be an issue, and sadly, it has come to pass."*[187]

**160.** Cawsom dystiolaeth gan chwe gweinidog a dau gyn-Brif Weinidog Cymru a soniodd y rhan fwyaf ohonynt am yr heriau sy'n wynebu'r sector.[188]

**161.** O ran dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE mewn ymateb i Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23 y Pwyllgor, dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, ym mis Ionawr 2024, fod Llywodraeth Cymru:

---

[185] Inspiring Connections: Scotland's International Culture Strategy 2024-30
[186] Llywodraeth Cymru: Y Berthynas Newydd â'r UE – Beth mae'n ei olygu i Gymru, Chwefror 2021
[187] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 105
[188] Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, Chwefror 204

> *"…yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau TCA yn gweithio mor effeithiol â phosibl ac ar barhau i wella ymgysylltiad Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru"*[189]

Ymatebodd yr Athro Catherine Barnard gan ddweud:

> *"The problem about getting the TCA to work as effectively as possible is […] the TCA is extremely limited in its ambition. Therefore, even if this worked well, it doesn't actually resolve any of the issues for musicians or any other cultural professionals […] The problem is that that is a very limited ambition if you're trying to improve the position of artists."*[190]

**162.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd cyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, Dawn Bowden AS, fod y sector diwylliannol yng Nghymru wedi bod "dan anfantais aruthrol mewn sawl ffordd o ganlyniad i adael y DU."[191] Disgrifiodd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu fel cytundeb "cyfyngedig iawn". Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru:

> *"…yn parhau i bwyso ar y mater hwn ond yn realistig nid ydym yn disgwyl penderfyniad cyflym a boddhaol."*[192]

**163.** Dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, wrthym fod y cyfyngiadau ar symudiadau artistiaid teithiol a'r sector creadigol yn broblem wirioneddol ac yn rhwystr gwirioneddol.[193] Dywedodd wrthym:

> *"…our starting point with the TCA review is not just looking at the governance structures, but looking to understand the approach that whoever the new UK Government is wants to take around the TCA, and we want to see barriers to trade removed. There are some*

[189] Ymateb ysgrifenedig cyn-Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, i Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23, 16 Ionawr 2024
[190] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 101
[191] Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, Chwefror 2024
[192] Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, Chwefror 2024
[193] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraff 44

> *specific points about movement as well. So, probably the most well-advertised one is about touring artists and the creative sector."*

Awgrymodd hefyd y dylid gweithio gyda'r Pwyllgor wrth i'r adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu agosáu.[194]

**164.** O ran pennu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, dywedodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS:

> *"Necessarily, as a Government, you've got to identify the order in which you press the case and one of the factors in that decision is the breadth of the economic impact of those priorities."*[195]

**165.** Ers hynny rhoddwyd y cyfrifoldeb am y meysydd portffolios perthnasol a amlinellir isod i'r gweinidogion a ganlyn:

- Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru ("Cysylltiadau rhyngwladol, cysylltiadau rhynglywodraethol, Cymru ac Ewrop");
- Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ("Polisi masnach ryngwladol, gan gynnwys cydlynu materion yn ymwneud â Masnach rhwng y DU a'r UE"); a
- Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ("Y Sector Creadigol, gan gynnwys Cymru Greadigol, Diwylliant a'r celfyddydau, Polisi darlledu a'r cyfryngau, Noddi Cyngor Celfyddydau Cymru a'i gylch gwaith").

## 7.1 Grwpiau cynghori

**166.** Cafodd y Grŵp Cynghori ar Ewrop ei ddiddymu ym mis Mai 2021. Yn ei adroddiad ar Lywodraethiant y DU a'r UE a gyhoeddwyd yn 2023, galwodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am sefydlu grŵp cynghori newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.[196]

[194] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 19 Mehefin 2024, paragraffau 44-45
[195] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 66
[196] Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE, Tachwedd 2023

**167.** Ymatebodd y Prif Weinidog gan ddweud:

> *"**Bydd angen ystyriaeth bellach**. Nid wyf yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i'r mater hwn. Mater i'r Prif Weinidog newydd ei ystyried fydd y mater hwn, yng nghyd-destun y berthynas a fydd yn datblygu rhwng y DU a'r UE o ran olaf 2024 ymlaen."*[197]

**168.** Mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach. Mae cofnodion ei gyfarfodydd yn adlewyrchu ei ffocws ar fasnach y tu allan i'r UE.

## 7.2 Data a thystiolaeth

**169.** Cyfeiriodd llawer o'r tystion at ddiffyg data ac ymchwil yn ymwneud â Chymru, gan gynnwys y ffaith nad yw nifer yr artistiaid o'r UE sy'n teithio i Gymru yn cael ei gofnodi. Soniodd y tystion am eu dibyniaeth ar dystiolaeth anecdotaidd[198] a phwysigrwydd tystiolaeth o effaith.[199] Yn fwy cyffredinol, roedd un artist yng ngŵyl Lleisiau Eraill yn awyddus bod yr effaith ar greadigrwydd yn cael ei gofnodi rywsut, ond ychwanegodd na fyddai'n gwybod ble i ddechrau.[200] Ychwanegodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru y byddai'n fuddiol iddynt gael adnoddau i wella'r data.[201]

**170.** Dywedodd Laurence Farreng ASE wrthym fod yr UE yn wynebu heriau tebyg gyda'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth i'w gweld ar lefel unigol/sector, yn hytrach nag ar lefel yr UE gyfan.[202]

**171.** Dywedodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS, wrthym:

> *"…within the sectors that we're discussing today, certainly from a creative industries perspective, there is a need for more research. You've had good evidence from the sector around the impact on*

[197] Ymateb ysgrifenedig y cyn-Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, i'r adroddiad Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE, 14 Chwefror 2024
[198] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod o'r trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 144; Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Chwefror 2024, paragraff 33
[199] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 55
[200] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 24
[201] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 195
[202] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 14 Mawrth 2024, paragraff 37

> *them, but I do think there is a case for more granular research, which would feed in to the point that you're making."*[203]

## 7.3 Cynnwys rhanddeiliaid

**172.** Disgrifiodd y tystion wahanol bwyntiau cyswllt â llywodraethau'r DU a Chymru. Er enghraifft:

- Dywedodd British Council Cymru fod ei brif berthynas gyda'r Swyddfa Dramor, ond bod ganddo gysylltiad â'r Adran Addysg (y DU), yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran Busnes a Masnach a hefyd Swyddfa'r Cabinet.[204]

- Dywedodd UK Music bod ei brif ddeialog gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a phan fydd wedi cysylltu ag adrannau eraill, mae pob trywydd yn arwain yn ôl at yr Adran honno. Cyfeiriodd at hyn fel gêm nadroedd ac ysgolion Whitehall.[205]

- Prif gyswllt Equity a NoFit State hefyd oedd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a dywedodd NoFit State nad oedd yr adran yn deall maint y broblem.[206] Ychwanegodd NoFit State ei bod yn anffodus bod pwerau Llywodraeth Cymru wedi'u cyfyngu oherwydd bod ei dull o ymdrin âr heriau hyn yn llawer mwy agored ac ymgysylltiol.[207]

- Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fod ei sefyllfa yn gymhleth, a bod ganddi gysylltiad ag adran cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel ei gilydd.[208]

- Dywedodd Media Cymru, Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Annibynnol a TAC nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad â llywodraethau ac mai eu

[203] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 15 Mai 2024, paragraff 84
[204] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 203
[205] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraffau 205, 210
[206] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraffau 59, 185
[207] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 185
[208] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 08 Chwefror 2024, paragraff 213

tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor oedd y drafodaeth gyntaf iddynt ei chael gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.[209]

## Ein barn ni

**173.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod gwell cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ers cwblhau Fframwaith Windsor. Credwn yn gryf mai'r atebion ar gyfer gweithwyr creadigol yw trefniadau symlach, cliriach ar lefel y DU a'r UE. Mae'r cyfleoedd posibl a ddaw yn sgil gwell cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn rhoi gobaith i ni fod atebion o fewn cyrraedd.

**174.** Roedd y materion a amlygwyd gan ein hymchwiliad wedi'u rhagweld gan Lywodraeth Cymru fis yn unig ar ôl i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ddod i rym, ac maent wedi cael eu hailadrodd drwy gydol yr ymchwiliad hwn gan chwe Gweinidog a dau Brif Weinidog. Mae'n siomedig canfod nad yw'r problemau hyn yn newydd i Lywodraeth Cymru a bod dealltwriaeth dda ohonynt, ond nad yw hyn wedi arwain at gynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â nhw.

**175.** Rydym yn gwrthbrofi honiad cyn Ysgrifennydd y Cabinet bod angen mwy o ymchwil ar lefel ronynnol i ddeall sut y mae'r modd y mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cael ei weithredu ar hyn o bryd yn niweidiol i Gymru. Yr hyn sy'n ddiffygiol yw data ar lefel Cymru sy'n cyfleu gwir faint yr effaith y credwn y gall Llywodraeth Cymru yn unig ei chael ac y mae yn y sefyllfa orau i'w chael. Rydym hefyd yn ofidus ynghylch y dystiolaeth sy'n nodi mai'r Pwyllgor hwn, i rai tystion, oedd y fforwm cyntaf lle yr oedd modd iddynt rannu eu barn a'u profiadau. Mae hon yn sefyllfa y mae modd ei hosgoi'n gyfan gwbl ac mae'n gwbl yn annerbyniol.

**176.** Nid yw'r flaenoriaeth a'r pwys y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i'r materion hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth o effaith yr ydym wedi'i chasglu. Rydym yn pryderu bod absenoldeb data ar lefel Cymru, ynghyd â'r diffyg gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a arweinir gan y llywodraeth, eisoes wedi rhwystro cynnydd Llywodraeth Cymru ar y materion hyn a bydd yn parhau i wneud hynny.

**177.** Yn mhellach, o ystyried absenoldeb data ar lefel Cymru, nid yw'n glir sut y mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ei blaenoriaethau presennol ar gyfer yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, na sut y mae'n bwriadu llywio'r blaenoriaethau hynny. Er ein bod yn cefnogi galwadau Llywodraeth Cymru am drefniadau fisa mwy hyblyg ac ailymuno â'r rhaglenni Ewrop Greadigol ac Erasmus+, mae'r mesurau hyn yn annigonol ar eu pen eu

[209] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, cofnod y trafodion, 28 Chwefror 2024, paragraff 250

hunain. Mae angen dull gweithredu mwy cyfannol a strategol i sicrhau yr eir i'r afael â'r ystod lawn o heriau sy'n wynebu'r sector, gan weithredu ar fyrder a chydag eglurder wrth symud ymlaen.

**178.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y corff sylweddol o dystiolaeth yr ydym wedi'i gasglu yn yr ymchwiliad hwn yn rhoi sail gref i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r achos dros welliannau yn ei thrafodaethau ar lefel y DU ac ar lefel y DU a'r UE.

**179.** Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030, gofynnwyd i'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol drin yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn fel tystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad.[210] Rydym yn croesawu addewid y Gweinidog i ystyried a all ein canfyddiadau fod yn sail i ddatblygiad y cynllun gweithredu.[211]

**Argymhelliad 9.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau pa ddata a thystiolaeth y mae'n eu defnyddio fel sail i'r penderfyniadau yn y maes hwn, gan gynnwys cynnwys artistiaid teithiol fel blaenoriaeth yn yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o sut y bydd ei blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn mynd i'r afael â'r holl elfennau y mae angen iddynt gydweithio er mwyn hwyluso gweithio'n greadigol ar draws ffiniau.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn cefnogi galwad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am sefydlu grŵp cynghori newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Dylai hyn gynnwys cyrff sy'n cynrychioli'r sector diwylliannol.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y materion a gwmpesir gan yr ymchwiliad hwn ers mis Ionawr 2021, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori canfyddiadau'r Pwyllgor yn ei strategaethau diwylliant a chysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol.

---

[210] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 03 Medi 2024
[211] Ymateb gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 01 Hydref 2024

## 8. Y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

**180.** Fe wnaethom ofyn am dystiolaeth benodol ar waith trawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon ar gyfer yr ymchwiliad hwn, fel rhan o'n hymrwymiad blaenorol i wella'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Galwodd rhai tystion sy'n gweithio rhwng Cymru ac Iwerddon am drefniadau pwrpasol a symlach ar gyfer symudiadau rhwng y ddwy wlad.

**181.** Mae'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon yn lliniaru problemau symudedd rhwng y ddwy wlad oherwydd ei fod yn rhoi'r hawl i ddinasyddion y DU ac Iwerddon fyw a gweithio yn y DU heb fod angen fisa na thrwyddedau gwaith. Mae'r Ardal Deithio Gyffredin yn rhagddyddio aelodaeth y DU ac Iwerddon o'r UE. Fodd bynnag, mae rheolau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar symud nwyddau yn dal i fod yn berthnasol i offerynnau, cyfarpar a nwyddau.

**182.** Cawsom dystiolaeth gan Adran Twristiaeth, Diwylliant, Celfyddydau, y Gaeltacht, Chwaraeon a Chyfryngau Llywodraeth Iwerddon yn disgrifio trefniadau cydweithredu cyfoethog ac aml-lefel rhwng gweithwyr creadigol, cynghorau celfyddydau a llywodraethau ein gwledydd. Serch hynny, mae'r adran yn cydnabod bod Brexit wedi creu nifer o heriau ar gyfer ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant rhwng Iwerddon a Chymru.

**183.** Dywedodd Llywodraeth Iwerddon fod yr effaith fwyaf ar y posibiliadau cydweithio rhwng Cymru ac Iwerddon yn deillio o ymadawiad y DU â rhaglenni cyllid yr UE, gan gynnwys Ewrop Greadigol. Mae'n rhybuddio:

> *"…we now have increased focus on fostering and developing relationships with non-UK European partners […] Over time this could have a negative impact on the level of individual and institutional collaboration between Ireland and Wales."*

**184.** Dywed hefyd fod Iwerddon yn nodi ei bod wedi cael cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu â'r DU yn y gorffennol drwy fforymau UE amlochrog ac nad yw cyfleoedd o'r fath yn bosibl mwyach.[212]

**185.** Dywedodd artistiaid yng ngŵyl Lleisiau Eraill wrth yr Aelodau eu bod yn edrych yn fwriadol i gyfeiriad y Gorllewin yn hytrach na'r Dwyrain ond bod canfyddiad yn Iwerddon ei bod hi'n anoddach gweithio yng Nghymru ar ôl

[212] Llywodraeth Iwerddon, tystiolaeth ysgrifenedig, Medi 2024

Brexit.[213] Ategwyd hyn gan dyst arall a ddywedodd nad yw'r cydweithio agos rhwng Cymru ac Iwerddon yn bodoli bellach.[214] Dywedodd un arall fod dwylo artistiaid wedi eu clymu gan y gofynion newydd, ac nad yw'r gofynion tollau yn gwneud yr ymdrech yn werth chweil.[215] Dywedodd sawl tyst fod staff CThEF Iwerddon yn llawer gwell am roi cyngor ar reolau tollau'r DU na'u cymheiriaid yn y DU.[216]

**186.** Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrth y Pwyllgor fod y berthynas rhwng cynghorau celfyddydau'r ddwy wlad yn "bwysicach nag y mae erioed wedi bod". Aethant ymlaen i esbonio:

> *"Wrth gwrs, mae'r gwariant ar y celfyddydau yn Iwerddon wedi mynd i fyny'n aruthrol, fel cyllidebau eraill, mewn cyfnod lle mae ein cyllidebau ni'n mynd yn is. […] beth sydd yn amlwg ydy bod artistiaid o Iwerddon yn mynd i gael lot mwy o gyfleoedd na'n hartistiaid ni rŵan oherwydd mae'n haws eu bwcio nhw, mae yna lai o gost ac maen nhw'n barod i gymryd yr awenau yn hynny o beth."*[217]

**187.** Roedd Arts Council Ireland yn cytuno â Llywodraeth Iwerddon mai prif effaith Brexit fu eithrio sefydliadau Prydeinig o brosiectau cydweithredu o dan raglenni'r UE, megis Ewrop Greadigol. Dywedwyd bod 54 y cant o brosiectau a ariannwyd gyda sefydliadau Gwyddelig yn ymwneud ag o leiaf un sefydliad yn y DU.

**188.** Esboniodd hefyd fod cynhyrchwyr Gwyddelig, cyn Brexit, yn gweithio'n draddodiadol gyda chymheiriaid yn y DU nad ydynt bellach yn gymwys i gael cyllid. Ers Brexit:

> *"Irish companies have proved to be adept in sourcing new partnerships in other European countries and some Northern Irish companies have set up companies in the Republic in order to access Creative Europe funds."*[218]

[213] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 26
[214] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 27
[215] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 16
[216] Lleisiau Eraill, nodyn o'r gwaith ymgysylltu, paragraff 25
[217] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 08 Chwefror 2024, gofnod y trafodion, paragraff 172
[218] Arts Council Ireland, tystiolaeth ysgrifenedig, 5 Medi 2024

## Ein barn ni

**189.** Rydym yn nodi’r galwadau gan rai tystion am drefniadau pwrpasol rhwng Cymru ac Iwerddon ac yn ailadrodd ein barn, a nodir uchod, mai materion strategol i’r DU a’r UE yw’r atebion yn y lle cyntaf.

**190.** Serch hynny, credwn y gallai’r materion yn yr adroddiad hwn elwa o’r cydweithio agos rhwng llywodraethau Cymru ac Iwerddon. Yn hynny o beth, credwn fod cyfle iddynt gadw golwg ar y materion hyn.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal deialog barhaus gyda Llywodraeth Iwerddon ar y mater hwn fel rhan o’u cydweithrediad parhaus a’u cydweithrediad yn y dyfodol, ac i gwmpasu, lle bo modd, pa gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu ar y cyd tra byddant yn aros am ateb wedi’i arwain gan y DU a’r UE.

# Atodiad 1: Tystiolaeth feintiol

Mae’r Atodiad hwn yn rhoi trosolwg o’r data meintiol a gafwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

## 1. Tystiolaeth iafar

### 1.1 Equity

- Dywedodd **43% o’r aelodau** a holwyd fod **Brexit wedi effeithio ar eu hyder** o ran gallu dod o hyd i waith yn y sector celfyddydau ac adloniant.
- **Collwyd €74 miliwn mewn cyllid ffilm a theledu** i’r DU yn 2018 (o fewn Ewrop Greadigol).
- Cyflwynwyd tystiolaeth bod **£170 miliwn wedi’i golli mewn cyllid diwylliannol** ers gadael. Ac roedd galwadau am rywbeth arall i gymryd ei le. Gwnaed addewidion ynghylch y ffaith na fyddai Cymru ar ei cholled yn sgil tynnu’r cyllid hwnnw yn ôl ac y byddai hwnnw’n cael ei ddisodli gydag arian o’r DU. Ni welwyd yr arian hwnnw, a dyna’r her fwyaf.

### 1.2 NoFit State

- Cyn y pandemig a Brexit, byddai gan NoFit State 1-2 gynhyrchiad teithiol y flwyddyn (9-35 cwmni), **80 perfformiad y flwyddyn yn yr UE** - nawr, mae’r cynyrchiadau o’r un maint ond gyda **55 o berfformiadau yn yr UE** (sy’n ymwneud yn bennaf â’r rheol 90 diwrnod), gan ei bod yn gorfod gwrthod archebion o’r UE.
- Cynnydd o £100k mewn costau a llai o botensial incwm o £90k.

### 1.3 Opera Cenedlaethol Cymru

- Mae’r **cyfyngiadau’n ymwneud â fisas** yn broblem fawr, sydd wedi arwain at **gynnydd o 66% mewn costau ychwanegol** yn sgil gordal y GIG.

### 1.4 Teledwyr Annibynnol Cymru

- Mae Canolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol wedi awgrymu y bu **gostyngiad o 15% yng ngwerthiant** rhaglenni.

### 1.5 Media Cymru

- Fe wnaeth **8-10%** o'r ymatebwyr i'r arolwg **godi newidiadau yn sgil Brexit** yn benodol.
- **O blith 550 o'r ymatebion i'r arolwg**, dim ond 1 a soniodd ei fod wedi newid i brynu nwyddau o ffynonellau lleol, y gellid ei ystyried yn beth da.

### 1.6 Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Annibynnol

- Roedd hyrwyddwyr yn gweld **gostyngiad yn nifer yr artistiaid teithiol sy'n dod i'r lleoliadau** ond nid oedd data.
- Rhyddhaodd Music Venue Trust ddatganiad yn ddiweddar i ddweud bod **dau leoliad yr wythnos yn cau** ar lawr gwlad. Yn amlwg, mae un yn ormod, heb sôn am **125 y llynedd ledled y DU**. (cysylltiad anhysbys â Brexit)

## 2. Tystiolaeth ysgrifenedig

### 2.1 No Fit State

- Mae bellach yn cyhoeddi **20 o dystysgrifau nawdd y flwyddyn**, o gymharu â 2 neu 3. (Mae hyn yn caniatáu i ddinasyddion nad ydynt yn aelodau o'r UE a nawr dinasyddion sy'n aelodau o'r UE i gael eu cyflogi gan y cwmni).
- Mae gordaliadau'r GIG ar gyfer artistiaid gyda thystysgrif **nawdd bellach yn £1,035 y pen y flwyddyn** (mae'n ofynnol iddynt drefnu yswiriant am flwyddyn gyfan). Dywedodd y cwmni ei fod yn £200 y flwyddyn ar gyfer dinasyddion nad ydynt yn aelodau o'r UE.
- Roedd yr incwm a gollwyd mewn perthynas ag archebion a wrthodwyd oherwydd y rheol 90 diwrnod yn haf 2023 **tua £120,000** a gwnaed **tua £40,000** yn llai o elw gros ar y daith.
- Mae'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â llunio rhestr ar gyfer trwydded ATA yn cymryd **3 wythnos i 6 o bobl** ei gwblhau. Mae'r gost

uniongyrchol o sicrhau'r gwaith papur a'r yswiriant angenrheidiol **tua £17,000**. Cyfanswm cost trwydded ATA felly yw **tua £28,000.**

## 2.2 Opera Cenedlaethol Cymru

- Cynnydd yn y gost o **£5,000 o leiaf** i dŷ opera Ewropeaidd logi cynhyrchiad, yn sgil cludo setiau, gwisgoedd a chyfarpar arall.
- Mae'r drwydded yn creu **hyd at £5,000** o gostau ychwanegol, ac mae'r gwaith gweinyddol yn cymryd hyd at wythnos. Mae angen dau ddiwrnod ychwanegol i gwblhau'r ffurflen. Caiff y costau eu pasio ymlaen gan wneud y cwmni'n ddrutach i dai opera Ewropeaidd.
- Ar gyfer offerynnau cerdd, roedd hi'n cymryd **30 diwrnod** i dystysgrifau Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau o Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl gael eu cymeradwyo a'u dychwelyd.
- Mae Gwasanaethau Theatrig Caerdydd yn cael trafferth cystadlu yn y farchnad Ewropeaidd oherwydd bod angen i gleientiaid dalu treth fewnforio ar nwyddau. Yn ddiweddar, fe wnaethant golli gwaith a oedd yn werth **tua £500,000** oherwydd ei fod yn rhy ddrud.
- Mae **40 awr** yn cael eu treulio fesul llwyth a thrwydded ATA ar gyfer mewnforion dros dro i'r UE. Mewn costau, mae angen prynu'r gwarantau bond yn ogystal â'r drwydded ATA, sydd fel arfer o gwmpas **£750 fesul dogfen**.
- Roedd cynhyrchiad o Death in Fenis yn cynnwys perfformwyr awyr o'r UE. Talodd WNO ffioedd tollau i ryddhau cyfarpar a **threuliwyd 2 awr ar waith gweinyddol ychwanegol**, a chodwyd **tâl tollau a thrin ychwanegol o tua 30%** o'r gwerth cyffredinol.
- Pan recriwtiwyd soddgrythor o'r Eidal yn ddiweddar, **talodd WNO daliadau fisa** drwy fisa Gweithiwr Crefftus **a gordal GIG blynyddol o £1,035.**
- O dan reolau fisa newydd a fydd yn dod i rym ar 4 Ebrill 2024, sy'n codi'r trothwy isafswm cyflog ar gyfer fisa Gweithiwr Crefftus o £26,200 i £38,700 y flwyddyn, ni fyddai WNO wedi gallu recriwtio oherwydd bod hyn uwchlaw trothwy cyflog y Cwmni ar gyfer y rôl hon.

### 2.3 Theatr Byd Bach

- Mae trwyddedau ATA yn creu mwy o waith, ac mae'n cymryd **2-3 diwrnod ychwanegol** i weinyddwr neu reolwr teithiau ddod i ddeall y system a chwblhau'r gwaith papur.

### 2.4 Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithredu Rhanbarthol

- Roedd **trosiant y Ganolfan dros £1 miliwn** pan symudodd rhaglenni Ewropeaidd o raglen Leonardo i Erasmus. Gwelodd gwymp llwyr yn y busnes a'i throsiant yn **lleihau i ddim**.

### 2.5 Cyngor Celfyddydau Cymru

- Mewn arolwg diweddar gan UK Music, dywedodd bron i **un o bob tri** o grewyr cerddoriaeth fod eu henillion wedi cael eu heffeithio ers Brexit, a dywedodd **43% o'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan Brexit** nad oedd bellach yn ymarferol iddynt fynd ar daith o amgylch yr UE.

- Dywedodd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC fod **4 cost ychwanegol** yn gysylltiedig â mewnforio/allforio eitemau. Er enghraifft, mae archebu cyfarpar o wledydd yr UE fel arfer yn arwain at **20% o gostau ychwanegol**.

### 2.6 British Council

- Dywedodd NoFit State ei fod yn amcangyfrif bod sioeau teithiol wedi gweld **gostyngiad o 40%** ym maint yr elw yn sgil cyfuniad o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r tu allan i'r UE a chynnydd mewn adnoddau dynol.

- Fe wnaeth awdurdodau yr Almaen wrthod talu treth ar anfoneb am recordiad gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Nid yw'r Gerddorfa wedi cael y dreth yn ôl eto a bu'n rhaid i'r BBC gyflwyno ffurflen esemptiad rhag talu treth ac mae'r rhain yn cymryd **9-12 mis** i'w prosesu.

- Nid yw British Council bellach yn aelod llawn o Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr UE, ond mae ganddo statws aelod cyswllt. Bydd yn parhau i dalu'r un ffi aelodaeth flynyddol (**€46,000**) ond nid oes ganddo

hawliau pleidleisio yn ystod y Cynulliadau Cyffredinol ac ni all eistedd ar y Bwrdd.

## 2.7 UK Music

- Yn ôl arolwg UK Music yn 2023, dywedodd 82% o gerddorion Prydain fod eu henillion wedi gostwng oherwydd Brexit. Yn y cyfamser, dywedodd 43% o gerddorion a holwyd nad yw bellach yn ymarferol iddynt fynd ar daith o amgylch gwledydd yr UE.
- Mae trwydded ATA, sydd ei hangen ar gyfer anfon offerynnau'n ddigwmni, yn costio £300 fesul llwyth, a TAW a blaendal diogelwch ar ben hynny. Gall costau gynyddu'n sylweddol, yn enwedig ar gyfer cerddorfeydd, y mae eu costau'n amrywio o £2000 i £5000.
- Mae angen i artistiaid gofrestru fel allforiwr, cael Rhif Cofrestru a Rhif Adnabod Gweithredwyr Economaidd, a chofrestru ar gyfer TAW ym mhob marchnad y maent yn ymweld â hi. Dywedodd band wrth y BBC fod costau ychwanegol wedi arwain at golli gwerth £2,500 mewn gwerthiannau nwyddau hyrwyddo ar daith o amgylch Ffrainc.
- Dywedodd un artist a holwyd gan UK Music fod costau ychwanegol ar nwyddau yn golygu nad yw teithio o amgylch yr UE yn fasnachol hyfyw, hyd yn oed i artistiaid sydd â chynulleidfa gyfartalog o 1500 o bobl.
- Mae llawer o gerddorfeydd yn rhedeg eu cerbydau eu hunain i sicrhau bod offerynnau'n cael eu cludo'n ddiogel. Mae cyfyngiadau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn, gan adael cerbydau arbenigol yn segur a cherddorfeydd yn wynebu biliau yn sgil gorfod rhentu dewisiadau amgen yn yr UE. Mae rhai cerddorfeydd yn talu hyd at £20,000 ar gyfer cerbydau newydd â banner yr UE arnynt.

## 2.8 Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain

- Dywed cerddorfeydd Prydain fod cynnwys cyfyngiadau trwyddedau ATA yn eu hamserlen deithiol yn arwain at gost ychwanegol o £16,000 y dydd.
- Gall llogi cludwyr cofrestredig yr UE i gludo offerynnau cerdd a chyfarpar ychwanegu hyd at £30,000 at bob taith.
- Mae aelodau wedi adrodd y byddai derbyn Cofrestriad Deuol yn arwain at gostau gan gynnwys cost untro o £8,500 ac yna £12,000 - £20,000

**ychwanegol y flwyddyn**, a **£2,150 ychwanegol bob 5 mlynedd wedi hynny**.

- Mae costau trwyddedau ATA wedi ychwanegu **tua £10,000** at bob taith ar gyfer cerddorfa sy'n aelod o'r ABO.
- Mae prosesu gwaith papur ar gyfer Trwyddedau ATA yn faich gweinyddol ychwanegol, gyda cherddorfa symffoni sy'n aelod o ABO yn adrodd ei bod wedi gorfod **cyflogi dau aelod ychwanegol o staff** i ymdrin â'r gwaith papur ychwanegol.

### 2.9 Teledwyr Annibynnol Cymru

- Dywedodd y Ganolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol yn ei **adroddiad sy'n dwyn y teitl 'State of Creativity'** a gyhoeddwyd yn 2023 fod ymchwil a wnaed yn betrus yn awgrymu, rhwng 2016 a 2019, y gallai canlyniad refferendwm Brexit a'r ansicrwydd a greodd i fusnesau fod wedi arwain at leihad o **15% mewn allforion gwasanaethau creadigol**.
- Mae'r DU yn parhau i fod yn rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol, sy'n golygu bod cynnwys y DU yn dal i elwa o ddarlledwyr teledu yn sicrhau bod **10% o'u cyllideb** yn cael ei neilltuo i gynnwys sy'n tarddu o wlad sydd wedi'i lofnodi ac mae'n rhaid i wasanaethau ar gais sicrhau bod **30% o'u catalog** yn cynnwys gweithiau Ewropeaidd o'r fath.

### 2.10 Equity

- Dywed **43% o aelodau Equity** fod Brexit wedi cael effaith negyddol ar eu hyder i allu dod o hyd i waith yn y diwydiant celfyddydau ac adloniant
- Roedd **31%** yn gweld hysbysebion swyddi a/neu restrau castio yn gofyn i ddeiliaid pasbort yr UE yn unig wneud cais, ac roedd y nifer hwnnw wedi codi ers i'r cyfyngiadau teithio yn sgil y pandemig ddod i ben.
- Roedd **14%** wedi cael cais gan eu hasiant i gadarnhau a ydynt yn ddeiliad pasbort yr UE at ddiben dod o hyd i waith.

## 3. Canfyddiadau'r rhaglen ymgysylltu

Yn dilyn cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda gweithwyr creadigol, mae'r **canfyddiadau** o Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion Comisiwn y Senedd yn cynnwys y data meintiol isod:

- *"Awgrymodd un rheolwr fod ymholiadau trefnu digwyddiadau i artistiaid wedi gostwng **20-30%** ers Brexit a Covid-19".*
- *"Soniodd llawer o gyfranogwyr am gostau ychwanegol carnets, os oes eu hangen, a'r blaendal sy'n **30 i 40% o werth yr eitem(au) sy'n cael eu cario**".*
- *"Esboniodd un cyfranogwr fod **80% o'i waith yn arfer bod yn yr Undeb Ewropeaidd**, cyn Brexit. Mae arhosiad o 90 diwrnod o fewn 180 diwrnod yn gwneud hyn yn amhosibl, gan arwain at golli enillion."*

# Atodiad 2: Casgliadau ac argymhellion tŷ'r arglwyddi

## Ym mis Hydref 2022, daethom i naw casgliad yn ymwneud â sut y caiff Cymru ei chynrychioli yng nghysylltiadau'r DU a'r UE ar ôl Brexit.

**Casgliad 1.** Byddem yn croesawu eglurhad o gyfrifoldebau Gweinidogion o ran y DU a'r UE ar lefel y DU er mwyn caniatáu mwy o dryloywder ar gyfrifoldebau a phortffolios rhyngweinidogol.

**Casgliad 2.** Byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch sut y mae ymgysylltu ar draws llywodraethau'n cael ei gydlynu ar bob lefel, gan gynnwys mewn perthynas â phwyllgorau a fforymau ffurfiol.

**Casgliad 3.** Mae'n amlwg bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i randdeiliaid yng Nghymru. Fodd bynnag, mae absenoldeb strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau'r DU a'r UE ar lefel y DU a Chymru yn cynrychioli heriau wrth lywio, a chyflawni gwaith craffu effeithiol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Mae hyn yn cael ei ddwysáu gan ehangder cyfrifoldebau Gweinidogol Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r trefniadau newydd.

**Casgliad 4.** Rydym yn credu y dylai'r pedair gwlad gael eu cynnwys a'u cynrychioli yng nghysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth y DU am sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

**Casgliad 5.** Rydym yn cefnogi barn Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd, nad yw statws arsylwr ar gyfer cynrychiolwyr datganoledig yng Nghynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE yn foddhaol. Rydym yn adleisio ei alwad am eu cyfranogiad llawn, fel yr amlinellir yn ei ymateb i'ch ymchwiliad.

**Casgliad 6.** Rydym yn parhau i gredu ym mhwysigrwydd cysylltiad uniongyrchol rhwng llywodraethau datganoledig a deddfwrfeydd â sefydliadau'r UE.

**Casgliad 7.** Rydym wedi ein siomi gan dystiolaeth a gafwyd y gallai fod llai o gyfle i gymryd rhan mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Byddem yn croesawu cael eglurhad ynghylch rolau'r gwledydd datganoledig ar draws cysylltiadau'r DU a'r

UE, yn hytrach nag ar gyfer meysydd penodol yn unig, megis mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol a strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**Casgliad 8.** Rydym hefyd yn pryderu bod yr heriau y mae rhanddeiliaid yn eu hwynebu ers Brexit o ran cymryd rhan mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi arwain at lai o gynrychiolaeth ar gyfer buddiannau Cymru, gyda risg y gallai'r gynrychiolaeth fynd yn llai byth yn y dyfodol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o rôl rhanddeiliaid ar draws cysylltiadau'r DU a'r UE, gan gynnwys nodi rhanddeiliaid o Gymru.

**Casgliad 9.** Rydym yn galw ar bob llywodraeth i wella arferion adrodd a thryloywder ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar gyfer seneddwyr, rhanddeiliaid a dinasyddion.

# Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **8 Chwefror 2024** | **Y Farwnes Bull,**<br>Tŷ'r Arglwyddi, Senedd y DU<br>**Eluned Haf,**<br>Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br>**Tom Kiehl,**<br>UK Music<br>**Ruth Cocks,**<br>British Council Cymru |
| **28 Chwefror 2024** | **Alison Woods,**<br>NoFit State<br>**Stephanie Bradley,**<br>Opera Cenedlaethol Cymru<br>**Bill Hamblett,**<br>Theatr Byd Bach<br>**Simon Curtis,**<br>Equity<br>**Andy Warnock,**<br>Undeb y Cerddorion<br>**Carwyn Donovan,**<br>Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a'r Theatr<br>**Luke Hinton,**<br>Cymdeithas yr Hyrwyddwyr Annibynnol<br>**Dyfrig Davies,**<br>Teledwyr Annibynnol Cymru<br>**Dr Enrique Uribe Jongbloed,**<br>Media Cymru |
| **14 Mawrth 2024** | **Laurence Farreng ASE,**<br>Cyn-Aelod o Bwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwylliant ac Addysg |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Yr Athro Catherine Barnard**<br>Prifysgol Caergrawnt<br>**Dr Charotte Fauchet,**<br>Prifysgol Bryste |
| **15 Mai 2024** | **Lesley Griffiths AC,**<br>Cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>**Jeremy Miles AC,**<br>Cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru |
| **19 Mehefin 2024** | **Vaughan Gething AS**<br>Cyn-Brif Weinidog Cymru, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig:

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CEU 01** | NoFit State Community Circus |
| **CEU 02** | Media Cymru |
| **CEU 03** | Opera Cenedlaethol Cymru |
| **CEU 04** | Theatr Byd Bach |
| **CEU 05** | Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| **CEU 06** | Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau a Chyfnewidfa Lên Cymru |
| **CEU 07** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **CEU 08** | UK Music |
| **CEU 09** | Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain |
| **CEU 10** | Jones y Ddawns |
| **CEU 11** | Teledwyr Annibynnol Cymru |
| **CEU 12** | Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru |
| **CEU 13** | Equity |
| **CEU 14** | British Council Cymru |
| **CEU 15** | Undeb y Cerddorion |
| **CEU 16** | Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithredu Rhanbarthol |
| **CEU 17** | Ffilmiau Wicked Cymru |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Lleisiau Eraill, canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu | **Hydref 2023** |

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Opera Cenedlaethol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig | **Chwefror 2024** |
| Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwrstiaeth, Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig | **Chwefror 2024** |
| Yr Athro Catherine Barnard, tystiolaeth ysgrifenedig | **Mawrth 2024** |
| Gweinidog y Cyfryngau, Twristiaeth a'r Diwydiannau Creadigol, Llywodraeth y DU, tystiolaeth ysgrifenedig | **Mai 2024** |
| Comisiwn y Senedd, canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â dinasyddion | **Mai 2024** |
| Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig | **Gorffennaf 2024** |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig | **Gorffennaf 2024** |
| Brif Weinidog Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig | **Awst 2024** |
| Arts Council Ireland, tystiolaeth Ysgrifenedig | **Medi 2024** |
| Llywodraeth Iwerddon, tystiolaeth ysgrifenedig | **Medi 2024** |